

## Plismona etholiadau

Egwyddorion a deddfwriaeth graidd

Rolau a gwaith cynllunio allweddol

Ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol

Deunydd cyfeirio

## Plismona etholiadau

Mae achosion o gamymddwyn etholiadol yn brin ond gallant ddenu cryn sylw yn y cyfryngau a thanseilio hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol. Gall y canfyddiad nad oedd ymateb cychwynnol i honiadau neu gwynion am achosion o gamymddwyn etholiadol hefyd effeithio ar hyder y cyhoedd.

Nod Panel Pleidiau'r Cynulliad ar blismona etholiadau yw helpu swyddogion yr heddlu ac, yn arbennig, [bwyntiau cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau](#) (SPOC), y mae'n ofynnol iddynt gyfrannu at y gwaith o gynllunio ymateb yr heddlu i etholiadau a'r gwaith o atal a chanfod achosion o gamymddwyn etholiadol. Bydd y cynnwys yn hwyluso eu gwaith gyda swyddogion cofrestru etholiadol, swyddogion canlyniadau a swyddogion cyfrif er mwyn lleihau'r potensial y ceir achosion o gamymddwyn yn y broses etholiadol.

Bydd Panel Pleidiau'r Cynulliad ar blismona etholiadau hefyd yn rhybuddio heddluoedd am faterion a all godi yn ystod y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio, ar y diwrnod pleidleisio ei hun ac mewn digwyddiadau cysylltiedig. Mae adroddiad y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus ar [Intimidation in Public Life](#) yn nodi bod sawl ymgeisydd seneddol wedi dioddef achosion o aflonyddu, cam-drin a bygyly yn ystod etholiad cyffredinol 2017. Mae cyfrifoldeb ar wasanaeth yr heddlu i roi cymorth i ddioddefwyr ac i ymchwilio i honiadau a throseddau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o fygyly. [Mae prif swyddogion](#) yn gyfrifol am sicrhau bod prosesau, strwythurau ac adnoddau ar waith i leihau achosion o fygyly ymgeiswyr ac i ymchwilio i unrhyw honiadau neu droseddau. Bydd angen ystyried yr holl ffactorau hyn wrth gynnal [asesiad o fygythiad](#). Mae cynhyrchion ar gyfer ymgeiswyr ac ymgyrchwyr hefyd wedi'u datblygu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Am wybodaeth bellach, gweler Ymgeiswyr ac Ymgyrchwyr.

Dim ond i heddluoedd yng Nghymru a Lloegr y mae Panel Pleidiau'r Cynulliad ar blismona etholiadau yn berthnasol. Mae canllawiau perthnasol ar gyfer Heddlu'r Alban ar gael [yma](#).

Mae deunydd cyfeirio cysylltiedig ar gael [yma](#).

Mae [mynegai llawn](#) o gynnwys Panel Pleidiau'r Cynulliad ar blismona etholiadau ar gael.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi llunio [fersiwn Saesneg](#) o Banel Pleidiau'r Cynulliad a'r [deunydd cyfeirio cysylltiedig](#).

## SWYDDOGOL

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Tachwedd 2014 **Addaswyd ddiwethaf:** 5 Tachwedd 2019

## Plismona etholiadau

Egwyddorion a deddfwriaeth graidd

Rolau a gwaith cynllunio allweddol

Ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol

Deunydd cyfeirio

# Plismona etholiadau

## Egwyddorion a deddfwriaeth graidd

### Cynnwys

- 1 Egwyddorion craidd
- 2 Y fframwaith cyfreithiol
  - 2.1 Tabl o droseddau perthnasol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
  - 2.2 Troseddau statudol perthnasol eraill a throseddau perthnasol eraill o dan gyfraith gyffredin
    - 2.2.1 Deddf Anudon 1911
    - 2.2.2 Deddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981
    - 2.2.3 Cyfraith gyffredin
    - 2.2.4 Deddf Hawliau Dynol 1998

## Egwyddorion craidd

Mae chwe egwyddor craidd sy'n sail i blismona etholiadau yn llwyddiannus.

### 1. Hyder y cyhoedd yn y broses etholiadol

- a. mae angen i'r heddlu fod yn rhagweithiol ac ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid drwy gydol y broses etholiadol
- b. gall canfyddiadau'r cyhoedd, fod ymateb cychwynnol yr heddlu i honiadau neu gwynion yn aneffeithiol, effeithio ar hyder y cyhoedd.

### 2. Mae atal yn well nag erlyn

- a. mae angen i arweinwyr yr heddlu ystyried strategaethau i atal achosion o gamymddwyn etholiadol neu honiadau cysylltiedig (a fydd yn annog pleidleiswyr i ymgysylltu)
- b. gall fod angen adnoddau sylweddol er mwyn ymchwilio i achos honedig o gamymddwyn etholiadol mewn modd adweithiol
- c. mae angen codi ymwybyddiaeth o rolau allweddol yr heddlu yn ystod y broses o gynllunio a chynnal etholiad.

### **3. Hwyluso trefniadau ymgyrchu lle na cheir achosion o fygyly ac sy'n hyrwyddo pleidleisio heddychlon**

- a. mae dulliau plismona rhagweithiol yn lliniaru'r tebygolrwydd y ceir achosion o fygyly ac yn hyrwyddo pleidleisio heddychlon.

### **4. Dylai etholiadau fod yn deg ac yn gynhwysol**

- a. mae'r Comisiwn Etholiadol yn ymrwymedig i sicrhau y caiff etholiadau a refferenda eu cynnal mewn ffordd deg a chynhwysol ac yn unol â'r gyfraith.

### **5. Dylid cynnal etholiadau yn unol â'r gyfraith**

- a. mae swyddogion canlyniadau yn gyfrifol am sicrhau y caiff etholiadau eu cynnal yn unol â'r gyfraith
- b. caiff y gofrestr etholiadol ei llunio gan y swyddog cofrestru etholiadol
- c. pwynt cyswllt unigol yr heddlu (SPOC) ar gyfer etholiadau a'r awdurdod lleol sy'n bennaf cyfrifol am gynllunio etholiadau a dylai'r broses hefyd gynnwys pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr annibynnol, pleidiau cofrestredig, ymgyrchwyr a Grŵp y Post Brenhinol Cyf.

### **6. Dylid plismona etholiadau yn effeithiol**

- a. dylai fod gan bob heddlu SPOC ar gyfer etholiadau, a fydd yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol, er mwyn rhoi cyngor ar ymchwiliadau i achosion o gamymddwyn etholiadol ac arwain yr ymchwiliadau hynny
- b. mae arweinyddiaeth weladwy a chyson yn hyrwyddo uniondeb, yn codi ymwybyddiaeth ac yn sicrhau ffocws ar blismona etholiadau mewn ffordd ragweithiol
- c. dylai arolygwyr plismona lleol sicrhau bod y gofyniad i sicrhau uniondeb mewn etholiadau yn amlwg yn eu harddull a'u gweithrediadau plismona lleol
- d. mae swyddogion SPOC profiadol ar gyfer etholiadau yn diogelu cof sefydliadol a gallu'r heddlu i werthuso arwyddocâd cymharol honiadau o gamymddwyn etholiadol.

## **Y fframwaith cyfreithiol**

---

**Noder:** Mae Canllawiau ar y Cyd i Ymgeiswyr mewn Etholiadau yn darparu arweiniad cyfreithiol i ymgeiswyr ar droseddau sy'n gysylltiedig â bygwth a mathau eraill o

droseddau. Is-adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) sy'n ymdrin â honiadau o gamymddwyn etholiadol yn hytrach nag ardaloedd lleol y Gwasanaeth. Dylid cyfeirio pob cais am gyngor neu benderfyniad i erlyn at SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, a fydd yn cydgysylltu ag erlynwyr arbenigol yn y SCCTD berthnasol.

Y CPS sy'n gyfrifol am bob penderfyniad o ran cyhuddiadau, gan gynnwys rhybuddion. Rhaid i unrhyw fath o warediad cadarnhaol gael ei gyflwyno i'r CPS drwy SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau.

Y brif ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â llywodraethu etholiadau yw [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983](#) (Deddf 1983). Yn ogystal, mae [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000](#) (Deddf 2000) yn nodi'r rheolau o ran gwariant, cyllid a rhoddion ar gyfer etholiadau a refferenda.

Mae [Deddf Tryloywder Lobïo, Ymgyrchu'r Rhai nad ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014](#) yn gwneud darpariaeth ar gyfer gwariant a rhoddion at ddibenion gwleidyddol ac yn darparu pwerau newydd i swyddogion canlyniadau. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â chydymffurfio â gofynion a orfodir drwy ddeddfau neu yn rhinwedd deddfau.

Mae Deddf 1983 yn diffinio'r rhan fwyaf o droseddau ar gyfer etholiadau senedd y DU, etholiadau llywodraeth leol Lloegr a materion cofrestru etholiadol a phleidleisio drwy'r post ledled y DU.

Mae Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 (Rheoliadau ESE 2004) yn adlewyrchu'r troseddau etholiadol a gynhwysir yn Neddf 1983, felly hefyd y ddeddfwriaeth ar gyfer pob refferendwm.

Mae'r troseddau mwyaf perthnasol o dan Ddeddf 1983 yn cynnwys y rheini a restrir yn y tabl isod. Ceir rhagor o fanylion am droseddau o dan Ddeddf 1983, ynghyd â'r bobl sy'n agored iddynt, categori'r drosedd a'r gosb, yn y [rhestr o droseddau a chosbau sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda](#).

## **Tabl o droseddau perthnasol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983**

<b>Adran</b>	<b>Disgrifiad cryno o'r drosedd neu'r arfer anghyfreithlon neu lwgr</b>
110 (noder hefyd adrannau 143 a 126 Deddf 2000)	Enw a chyfeiriad yr argraffwr ar gyhoeddiadau'r etholiad

SWYDDOGOL

106(1)	Datganiad ffeithiau ffug mewn perthynas ag ymgeisydd
13D(1)	Gwybodaeth gofrestru ffug
13D(1A)	Gwybodaeth ffug mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post/drwy ddirprwy
65A(1) ac (1A)	Datganiadau ffug mewn papurau enwebu ac ati
62A	Troseddau sy'n ymwneud â'r ceisiadau i gofrestru i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy
60	Cambersonadu
65(1)	Ymyrryd â phapurau enwebu, papurau pleidleisio, ac ati
113	Llwgrwobrwyo
114(2) a (3)	Anrhegu
115	Dylanwad gormodol
73(6) i 84	Treuliau etholiad
73(6)	Taliadau a wneir tuag at dreuliau etholiad ymgeisydd gan unrhyw berson nas gwneir drwy asiant yr etholiad
75(5)	Methu â datgan treuliau yr aed iddynt gan berson ac a awdurdodwyd gan yr asiant o fewn 21 diwrnod o'r diwrnod y caiff canlyniad yr etholiad ei ddatgan
76(1B)	Mynd y tu hwnt i'r terfyn ar gyfer treuliau ymgeiswyr
82(6)	Gwneud datganiad ffug i gyd-fynd â'r ffurflen treuliau
84	Methu â dychwelyd ffurflen

## Troseddau statudol perthnasol eraill a throseddau perthnasol eraill o dan gyfraith gyffredin

Mae'n bosibl y bydd troseddau neu honiadau troseddol sy'n gysylltiedig â thwyll yn ymwneud â'r ddogfennaeth a ddefnyddiwyd i gofrestru neu'r broses bleidleisio ei hun.

### Deddf Anudon 1911

Mae'n drosedd o dan [adran 5](#) i unrhyw berson wneud datganiad ffug (ac eithrio ar lw) yn fwriadol ac yn wirfoddol, er enghraifft mewn datganiad, ffurflen neu ddogfen arall statudol y mae ganddynt yr awdurdod i'w wneud neu y mae'n ofynnol iddynt ei wneud, ei ardystio neu ei ddilysu neu mewn unrhyw ddatganiad llafar neu ateb llafar sy'n ofynnol gan unrhyw Ddeddf Seneddol, o dan unrhyw ddeddf o'r fath neu'n unol ag unrhyw ddeddf o'r fath.

### Deddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981

#### Ffugio

Mae'n drosedd o dan [adran 1](#) i berson wneud offeryn ffug, gyda'r bwriad y bydd y person hwnnw neu berson arall yn ei ddefnyddio i gymell rhywun i'w dderbyn fel offeryn dilys, a thrwy ei dderbyn felly i gyflawni gweithred neu i beidio â chyflawni gweithred yn erbyn ei hun neu yn erbyn unrhyw berson arall.

#### Defnyddio offeryn ffug

Mae'n drosedd o dan [adran 3](#) i berson ddefnyddio offeryn sy'n ffug, ac y mae'r person hwnnw yn gwybod neu'n credu ei fod yn ffug, gyda'r bwriad o gymell rhywun i'w dderbyn fel offeryn dilys, a thrwy ei dderbyn felly i gyflawni gweithred neu i beidio â chyflawni gweithred yn erbyn ei hun neu yn erbyn unrhyw berson arall.

## Cyfraith gyffredin

### Cynllwyn i dwyllo

Mae'n drosedd mewn cyfraith gyffredin (fel y'i cadwyd gan [adran 5\(2\)](#) o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1977) i ddau unigolyn neu fwy gynllwynio mewn ffordd anonest i amddifadu person o rywbeth sy'n eiddo i'r person hwnnw y byddai neu y gallai'r person hwnnw fod wedi bod â hawl iddo, neu i ddifrodi hawl berchenogol person.

### Deddf Trefn Gyhoeddus 1986

Mae troseddau cyffredin yn ystod cyfnod etholiad yn debygol o gynnwys y canlynol:

- [adran 4](#) - defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, treisgar neu sarhaus gan achosi ofn neu ysgogi trais
- [adran 4A](#) – defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, treisgar neu sarhaus, neu ymddygiad afreolus, gyda'r bwriad o achosi aflonyddwch, gofid neu drallod, a chan achosi hynny

- [adran 5](#) – defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol neu dreisgar, neu ymddygiad afreolus sy'n debygol o achosi aflonyddwch, gofid neu drallod.

Yn ogystal, dylid ystyried y pwerau niferus sydd ar gael i'r heddlu o dan [Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986](#) a all fod o gymorth wrth ymdrin â sefyllfaoedd a allai achosi anhrefn gyhoeddus mewn perthynas ag etholiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am blismona trefn gyhoeddus (gan gynnwys [tor heddwch](#)) ym Mhanel Pleidiau'r Cynulliad ar [drefn gyhoeddus](#).

### **Deddf Hawliau Dynol 1998**

Rhaid ystyried y defnydd o holl bwerau'r heddlu yn unol â [Deddf Hawliau Dynol 1998](#). Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus, gan gynnwys yr heddlu, ymddwyn mewn ffordd sy'n gydnaws â'r hawliau a nodir yn Atodlen 1 o'r Ddeddf, sy'n cynnwys y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) mewn cyfraith ddomestig.

Mae'r Erthyglau canlynol yn arbennig o berthnasol wrth blismona etholiadau:

- Erthygl 3 o Brotocol 1 (lle mae gwladwriaethau yn ymrwmo i gynnal etholiadau rhydd ar gyfnodau rhesymol drwy bleidlais gyfrinachol, o dan amodau a fydd yn sicrhau y gall y bobl fynegi eu barn yn rhydd wrth ddewis y ddeddfwrfa)
- Erthygl 5 (yr hawl i ryddid a diogelwch)
- Erthygl 8 (yr hawl i barch tuag at fywyd preifat a bywyd teuluol)
- Erthyglau 9, 10 ac 11 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd, rhyddid mynegiant a rhyddid i gynnull ac ymgysylltu sydd, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn darparu hawl i ymgyrchu yn ystod cyfnod etholiad).

Mae'r ECHR yn gosod dyletswyddau negyddol a chadarnhaol ar yr heddlu. O ran pob un o'r Erthyglau a restrir uchod, ceir rhwymedigaeth 'negyddol' sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu beidio ag ymyrryd â'r hawliau dan sylw. Yn ogystal, mewn rhai achosion penodol, gosodir dyletswyddau cadarnhaol ar y wladwriaeth hefyd. Mae hyn yn wir o ran Erthygl 3 Protocol 1 lle ceir rhwymedigaeth i gynnal etholiadau rhydd, ac Erthygl 11 lle ceir dyletswydd gadarnhaol i sicrhau y gall pawb fwynhau'r hawl i gynnull ac ymgysylltu yn effeithiol, megis gweithgareddau canfasio heddychlun a chynnull mewn gorsafoedd pleidleisio neu gerllaw gorsafoedd o'r fath.

### **Ymyrryd â hawliau'r Confensiwn**

Mae'r hawliau a'r rhyddid a ddarperir gan Erthyglau 9, 10 ac 11 o'r Confensiwn yn hawliau amodol. Mae hyn yn golygu y gellir ymyrryd â nhw neu eu cyfyngu o dan rai amgylchiadau penodol os bydd angen ac er mwyn cyflawni nod dilys.

Gall yr heddlu osod cyfyngiadau ar ryddid o ran cred, mynegiant a chynnull yn heddychlun, ar yr amod bod unrhyw gyfyngiad o'r fath:



## SWYDDOGOL

- wedi'i ragnodi yn ôl y gyfraith
- yn unol ag un neu fwy o'r nodau dilys a ddynodir ym mharagraff 2 o'r Erthygl dan sylw
- yn angenrheidiol
- yn gymesur.

Mae Erthygl 5 o'r Confensiwn ac Erthygl 3 o Brotocol 1 ill dau yn hawliau cyfyngedig. Mae hyn yn golygu y gellir eu cyfyngu o dan amgylchiadau clir a phenodol fel y'u nodir yn glir yn yr Erthygl ei hun neu fel yr awgrymir gan Lys Hawliau Dynol Ewrop.

Cyrchwyd y dudalen ddiwethaf 12 Mawrth 2019

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Tachwedd 2014 **Addaswyd ddiwethaf:** 20 Tachwedd 2017

- [Gwybodaeth gyfreithiol](#)
- [Cwcis](#)
- [Hygyrchedd](#)
- [Rhyddid gwybodaeth](#)

# Plismona etholiadau

## Rolau a gwaith cynllunio allweddol

Mae gwaith cynllunio etholiadol trylwyr yn lleihau'r potensial y caiff ymgeiswyr/ymgyrchwyr eu bygylu ac y ceir achosion o gamymddwyn etholiadol. Mae hefyd yn gwella gallu gwasanaeth yr heddlu i ymateb i honiadau os byddant yn codi. Mae'r adran hon yn nodi rolau allweddol gwasanaeth yr heddlu ac asiantaethau eraill, y mae angen iddynt gydweithio er mwyn sicrhau ymateb effeithiol gan yr heddlu i etholiadau.

Noder: Ceir cyfeiriadau mynych at blismona etholiadau - yn y cyd-destun hwn, gall etholiadau

### Cynnwys

- 1 Rolau allweddol
- 1.1 Pwynt cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau
- 1.2 Comanderiaid
- 1.3 Arolygwyr cymdogaethau
- 1.4 Timau plismona cymdogaethau
- 1.5 Uwch swyddog ymchwilio
- 1.6 Swyddog cofrestru etholiadol
- 1.7 Swyddog canlyniadau
- 1.8 Rheolwr gwasanaethau etholiadol
- 1.9 Y Comisiwn Etholiadol
- 1.10 Gwasanaeth Erllyn y Goron
- 2 Ystyriaethau rheoli a chynllunio
- 2.1 Asesu bygythiadau
- 2.2 Ystyriaethau ar ddiwrnod yr etholiad
- 3 Gweithio mewn partneriaeth
- 3.1 Partneriaid
- 3.2 Cynllunio cyn yr etholiad
- 3.3 Memorandwm cyd-ddealltwriaeth
- 3.4 Yr amserlen a argymhellir ar gyfer digwyddiadau ar gyfer etholiad ym mis Mai
- 4 Cyfathrebu
- 5 Didueddrwydd
- 6 Strategaeth gyfathrebu
- 6.1 Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr
- 6.2 Cymunedau
- 6.3 Y cyfryngau

- [7 Ar ôl yr etholiad](#)
- [7.1 Dadfriffio ar ôl yr etholiad](#)
- [7.2 Dysgu sefydliadol](#)

## Rolau allweddol

---

### Prif swyddogion

Pan gaiff etholiad neu refferendwm ei gyhoeddi, dylid penodi prif swyddog i adolygu'r cynlluniau sy'n bodoli eisoes gan yr heddlu ar gyfer plismona etholiadau. Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i lywio ystyriaethau rheoli a chynllunio, yn enwedig mewn perthynas â deall a gweithredu'r prosesau, y strwythurau a'r adnoddau sydd eu hangen i wneud y canlynol:

- lliniaru achosion o gamymddwyn etholiadol
- cyfrannu at amgylchedd lle na chaiff ymgeiswyr a/neu ymgyrchwyr eu bygylu
- hwyluso'r gallu i bleidleisio'n heddychlon.

Dylai'r rolau a'r partneriaid allweddol a amlinellir yn yr adran hon gymryd rhan yn yr adolygiad hwn a, lle y ceir gwybod am amserlen yr etholiad ymlaen llaw, gallai fod yn rhan o'r broses cynllunio cyn yr etholiad.

Gan ddibynnu ar natur yr etholiad a'r broses asesu bygythiadau, gall prif swyddog weithredu fel y comander aur drwy gydol yr ymgyrch blismona.

### Pwynt cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau

Mae gan bob heddlu bwynt cyswllt unigol (SPOC) enwebedig ar gyfer etholiadau sy'n:

- cydgysylltu â'r [Comisiwn Etholiadol](#) ar ran yr heddlu
- deall y drefn o weinyddu etholiadau ac achosion o gamymddwyn etholiadol
- [meithrin cyswllt ac yn cydgysylltu â'r rheolwr gwasanaethau etholiadol](#) (ESM)
- darparu gwybodaeth, cyngor a diweddariadau perthnasol a rheolaidd ar faterion sy'n ymwneud â'r etholiad i gomandariaid, unedau rheoli sylfaenol a thimau plismona cymdogaethau
- cydgysylltu ag awdurdodau lleol a thimau plismona cymdogaethau er mwyn nodi cymunedau a lleoliadau a all fod yn agored i achosion o gamymddwyn etholiadol
- cefnogi'r broses gynllunio ar gyfer etholiadau, gan gynnwys paratoi memoranda cyd-ddealltwriaeth a darparu hyfforddiant perthnasol i swyddogion a staff
- cydgysylltu â [swyddogion canlyniadau](#) awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gallant gael cyngor/cymorth gan yr heddlu pan fydd ei angen arnynt

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion canlyniadau awdurdodau lleol am unrhyw ymchwiliad troseddol sy'n gysylltiedig â throeddau etholiadol sy'n mynd rhagddo yn ardal eu hawdurdod lleol
- dadansoddi a dosbarthu cudd-wybodaeth a gwybodaeth sy'n berthnasol i'r broses gynllunio ar gyfer etholiad
- hyrwyddo ymwybyddiaeth o gynhyrchion a chyngor perthnasol sy'n amlinellu sut y gall darpar ymgeiswyr ac ymgyrchwyr nodi ac ymateb i ddigwyddiadau aflonyddu, bygylu neu ymddygiad bygythiol, gweler gwefan y Comisiwn Etholiadol am ragor o wybodaeth
- deall dull gweithredu'r heddlu mewn perthynas ag ymateb i honiadau o aflonyddu, bygylu neu ymddygiad bygythiol, ac ymchwilio i'r honiadau hynny, yn ystod cyfnod etholiad, gweler ystyriaethau rheoli a chynllunio
- cydgysylltu a chefnogi ymchwiliadau troseddol sy'n gysylltiedig ag etholiadau, e.e. rhoi cyngor i'r [uwch swyddog ymchwilio](#) a swyddogion ymchwilio
- adolygu ffeiliau achosion troseddol sy'n gysylltiedig ag etholiadau cyn eu cyflwyno i [Wasanaeth Eryl y Goron \(CPS\)](#)
- cydgysylltu â chyfreithiwr penodedig y CPS er mwyn dilyn hynt yr achos
- monitro'r wybodaeth ddiweddaraf i achwynwyr drwy gydol y broses ymchwilio a chydgysylltu strategaeth ymadael mewn achosion lle na chaiff unrhyw gamau pellach eu cymryd neu lle nad oes digon o dystiolaeth i barhau
- cynrychioli'r heddlu ar lefel genedlaethol drwy gydgyssylltu â'r Comisiwn Etholiadol, e.e. darparu data ar blismona etholiadau yn ardal yr heddlu i [Weithgor Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Camymddwyn Etholiadol](#)
- gall ddirprwyo rhai o'i weithgareddau i eraill, e.e. pennu SPOC penodedig ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol o fewn ei ardal heddlu. Fodd bynnag, bydd bob amser yn gyfrifol am sicrhau y caiff etholiadau eu plismona'n effeithiol o fewn ei heddlu.

## Comanderaid

### Rhagor o wybodaeth

[Rolau rheoli aur, arian ac efydd](#)

[Ystyriaethau rheoli a chynllunio](#)

Mae angen strwythur rheoli addas er mwyn sicrhau y caiff etholiad ei blismona'n effeithiol. Bydd hyn yn seiliedig ar rolau rheoli aur, arian ac efydd:

- comander aur – yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth a chynnal trosolwg strategol a chyfrifoldeb rheoli cyffredinol drwy gydol yr ymgyrch
- comander arian – yn gyfrifol am ddatblygu a gweithredu ymateb tactegol yr ymgyrch yn unol â strategaeth y comander aur
- comander(iaid) efydd – yn gyfrifol am reoli grŵp o adnoddau, a chyflawni cyfrifoldebau gweithredol (e.e. troseddau efydd, diogelu ymgeiswyr/ymgyrchwyr efydd, diogelwch efydd) neu ddaearyddol mewn perthynas â'r cynllun tactegol.

## Arolygwyr cymdogaethau

Mae arolygwyr yn gweithio gyda'r gymuned leol ac asiantaethau eraill er mwyn creu cymdogaeth hyderus a diogel. Dylent gymryd rhan yn y broses o gynllunio etholiadau drwy ganolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymuned, sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i blismona'r etholiad a bod staff yn cael hyfforddiant priodol cyn diwrnod yr etholiad. Dylai agweddau ar y broses etholiadol, megis diogelwch gorsafoedd pleidleisio a'r broses gyfrif, fod yn flaenoriaeth o ran plismona cymdogaethau a dylid eu rheoli'n briodol a sicrhau bod adnoddau priodol ar gael ar eu cyfer.

Yn ogystal, yn ystod etholiad neu refferendwm, mae'r arolygydd plismona cymdogaethau yn:

- sicrhau llinellau cyfathrebu clir â'r tîm rheoli lleol, [SPOC yr heddlu ar gyfer yr etholiad](#) a'r [uwch swyddog ymchwilio](#)
- sicrhau y caiff y swyddogion lleol sy'n rhan o'r broses o blismona etholiadau eu briffio cyn eu defnyddio
- cefnogi a rhoi tawelwch meddwl i'r gymuned drwy ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol a rhwydweithiau allweddol cyn yr etholiad, yn ystod yr etholiad ac ar ôl yr etholiad, gan sicrhau bod gwasanaeth yr heddlu yn cael ei ystyried yn wasanaeth sy'n gweithredu mewn ffordd ddiudedd
- ymwybodol o'r cydbwysedd gwleidyddol a'r cymysgedd ymgeiswyr yn ei ward benodol ac unrhyw effaith y gall hyn ei chael o ran adnoddau
- deall y broses ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn etholiadol a chynnig cyngor a thawelwch meddwl ar lefel leol i'r rheini yr effeithir arnynt
- sicrhau ymateb amserol a phriodol i unrhyw fater neu honiad a gaiff ei godi, gan ei uwchgyfeirio os bydd angen er mwyn sicrhau yr ymdrinnir ag ef yn effeithiol.

## Timau plismona cymdogaethau

### Rhagor o wybodaeth

[Canllawiau poced y Comisiwn Etholiadol \(2016\) ar blismona etholiadau a refferenda](#) (mae copiâu papur ar gael gan y Comisiwn Etholiadol ym mis Mawrth 2015 i'w dosbarthu i swyddogion rheng flaen)

Mae rôl timau plismona cymdogaethau yn gynyddol hanfodol ar adegau lle y cynhelir etholiadau lleol a chenedlaethol. Mewn ardaloedd lle mae'r cymunedau yn teimlo'n agored i niwed, mae gan y tîm plismona lleol ran hanfodol i'w chwarae wrth sicrhau bod unigolion yn teimlo bod eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio yn cael ei chefnogi gan y rheini sy'n gorfodi'r gyfraith.

O dan oruchwyliaeth arolygwyr cymdogaethau, mae timau plismona cymdogaethau yn:

## SWYDDOGOL

- cynnal deialog agored â chysylltiadau cymunedol ac yn eu hannog i dynnu sylw aelodau eu cymuned at faterion sy'n gysylltiedig ag achosion o gamymddwyn etholiadol
- cynnal patrolau sicrwydd mewn ardaloedd lle ceir risg uwch, gan dargedu ardaloedd a safleoedd sy'n agored i niwed mewn ffordd gadarnhaol ac ymgysylltu â'r gymuned mewn ffordd gadarnhaol er mwyn codi ymwybyddiaeth o gamymddwyn etholiadol
- cymryd rhan mewn gwaith i gasglu cudd-wybodaeth berthnasol, e.e. mae'n bosibl y bydd swyddogion a staff sy'n gweithio yn y gymuned yn cael gwybodaeth ac yn dod i wybod am densiynau cymunedol a all effeithio ar yr etholiadau a gynhelir yn eu cymuned
- mabwysiadu dull plismona cadarnhaol, e.e. ymgysylltu â'r gymuned a chynnal deialog â'r gymuned honno
- dylai fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth etholiadol a'r broses etholiadol, e.e. dau faes a all beri pryder mewn cymunedau yw'r ffordd y caiff pleidleisiau drwy'r post eu trin ac ymdrechion i ddylanwadu ar unigolion i bleidleisio dros blaid benodol. Er nad ydynt o reidrwydd yn droseddau, gall y mathau hyn o arferion ddigwydd yn sgil anwybodaeth canfaswyr. Gall timau plismona cymdogaethau atal ymddygiad o'r fath cyn iddo ddod i'r amlwg, e.e. yn y cyfryngau, a all arwain at ganlyniadau niweidiol neu negyddol i'r gymuned.

## Uwch swyddog ymchwilio

Yng nghyd-destun plismona etholiadau, mae'r Uwch Swyddog Ymchwilio (SIO) yn:

- goruchwyllo/rheoli ymchwiliadau (gan gynnwys y strategaeth ymchwiliol)
- mynd i gyfarfodydd rheoli perthnasol (e.e. cyfarfodydd aur a/neu arian)
- cydgysylltu â SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, yn enwedig mewn perthynas â chael cyngor gan y CPS
- deall deddfwriaeth etholiadol ac yn ymwybodol o droseddau y gall fod yn fwy addas cyflwyno cyhuddiad ar eu cyfer (e.e. troseddau trefn gyhoeddus neu dwyll)
- deall ei rôl wrth ymchwilio a/neu oruchwyllo ymchwiliadau sy'n ymwneud â honiadau o aflonyddu, bygylu neu ymddygiad bygythiol
- sicrhau y caiff honiadau o gamymddwyn etholiadol eu hasesu ac yr ymatebir iddynt mewn modd amserol a phriodol
- sicrhau bod adnoddau ymchwilio digonol ar gael/yn cael eu defnyddio
- darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i achwynwyr ac unigolion allweddol.

## Swyddog cofrestru etholiadol

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cyngor benodi swyddog i ymgymryd â rôl swyddog cofrestru etholiadol. Penodir yr unigolyn yn ffurfiol a bydd ganddo bwerau penodol. Gellir

penodi prif weithredwr cyngor i'r rôl hon, ond mewn rhai cynghorau, caiff un o uwch swyddogion amgen y cyngor, megis cyfarwyddwr gwasanaethau cyfreithiol, ei benodi i ymgymryd â'r rôl.

Mae gan y swyddog cofrestru etholiadol gyfrifoldeb statudol dros baratoi a chynnal y gofrestr etholwyr (h.y. rhestr o'r bobl y mae ganddynt yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau cyffredinol seneddol, etholiadau llywodraeth leol ac etholiadau senedd Ewrop). Mae hefyd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch pleidleisiau absennol a'r rhestr pleidleiswyr absennol (h.y. rhestr o'r bobl y mae ganddynt yr hawl i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy). Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu y gall etholwr na all fwrw ei bleidlais yn bersonol, oherwydd salwch neu anaf er enghraifft, enwebu etholwr arall i fwrw pleidlais ar ei ran.

Mae'r swyddog cofrestru etholiadol hefyd yn bersonol atebol os aiff yn groes i'w ddyletswyddau statudol (fel y nodir yn adran 63, Deddf 1983).

## **Swyddog canlyniadau**

Mae'r swyddog canlyniadau yn gyfrifol am sicrhau y caiff etholiadau eu cynnal yn unol â'r gyfraith. Mae'n bersonol atebol am y ffordd y cynhelir etholiad. Mae nifer o gyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau y caiff unrhyw etholiad ei gynnal yn effeithiol y mae'n rhaid i'r swyddog canlyniadau gydymffurfio â nhw (e.e. y trefniadau ar gyfer y diwrnod pleidleisio a'r drefn ar gyfer cyfrif y pleidleisiau).

Mae'r swyddog canlyniadau hefyd yn gyfrifol am reoli etholiadau lleol. Ar gyfer refferenda cynghorau lleol, refferenda treth gyngor neu refferenda maerol, bydd y swyddog canlyniadau yn gweithredu fel y swyddog cyfrif. Mae'r swyddog canlyniadau gweithredol yn gyfrifol am etholiadau seneddol yn y DU.

Gellir penodi prif weithredwr cyngor i rôl swyddog canlyniadau neu swyddog canlyniadau gweithredol, ond mewn rhai cynghorau, caiff un o uwch swyddogion amgen y cyngor, megis cyfarwyddwr gwasanaethau cyfreithiol, ei benodi i ymgymryd â'r rolau hyn.

Mae rôl y swyddog canlyniadau wedi'i chyfyngu i weinyddu'r etholiad. Nid oes gan swyddogion canlyniadau bwerau i ymchwilio. Gwasanaeth yr heddlu sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Mae swyddogion canlyniadau yn ddarostyngedig i'r gyfraith os byddant wedi mynd yn groes i'w dyletswyddau statudol (fel y nodir yn adran 63 Deddf 1983).

## **Rheolwr gwasanaethau etholiadol**

Rôl y rheolwr gwasanaethau etholiadol, neu'r swyddog lleol cyfatebol, yw rhoi cyngor i'r swyddog cofrestru etholiadol a'r swyddog canlyniadau ar bob mater etholiadol a'u helpu i gyflawni eu swyddogaethau statudol. Mae'r rheolwr gwasanaethau etholiadol hefyd yn sicrhau y caiff y swyddogaethau cofrestru ac ethol eu gweinyddu'n effeithiol.

Mae'r rheolwr gwasanaethau etholiadol yn gyfrifol am reoli'r gwaith cynllunio, rheoli'r prosiect a rheoli risgiau ar gyfer y broses cofrestru etholiadol a'r broses etholiadau. Fel arfer, mae'n uniongyrchol atebol i'r swyddog cofrestru etholiadol a'r swyddog canlyniadau.

Dylai [SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau](#) gysylltu â'r rheolwr gwasanaethau etholiadol er mwyn meithrin cydberthynas broffesiynol, mewn perthynas ag uniondeb etholiadol a materion sy'n ymwneud â chamymddwyn. Dylai'r SPOC a'r rheolwr gwasanaethau etholiadol gydweithio er mwyn cynllunio'n briodol, cyfleu a chyfnewid gwybodaeth a sicrhau trefniadau effeithiol i'r ddau sefydliad weithio mewn partneriaeth mewn perthynas â materion etholiadol er mwyn diogelu'r broses ddemocrataidd. Gall [y rhestr wirio hon](#) helpu yn hyn o beth.

## Y Comisiwn Etholiadol

Mae'r [Comisiwn Etholiadol](#) yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan senedd y DU. Ei nod yw hyrwyddo a sicrhau uniondeb a hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Mae'n rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gaiff eu rhedeg yn dda.

Ar gyfer refferenda ledled y DU, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol fydd y Prif Swyddog Cyfrif, sy'n gyfrifol am ardystio a chyhoeddi canlyniad y refferendwm. Mae'r Prif Swyddog Cyfrif yn penodi Swyddogion Cyfrif i gynnal pleidlais y refferendwm ym mhob ardal leol, a gall roi cyfarwyddiadau iddynt yn eu hysbysu sut i gynnal rhannau penodol o bleidlais y refferendwm.

Mae'r Comisiwn yn cynnig arweiniad i swyddogion canlyniadau ar gynnal etholiadau effeithiol ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn safonau perfformiad. Bob blwyddyn, mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiadau ar effeithiolrwydd wrth gynnal etholiadau ac yn gwneud argymhellion er mwyn gwella etholiadau yn y dyfodol. Mae'r Comisiwn hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar ôl refferenda.

Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnig arweiniad a chynghor i ymgeiswyr ac asiantiaid. Mewn partneriaeth â NPCC, mae'r Comisiwn yn darparu cynghor a hyfforddiant i [swyddogion SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau](#). Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnal fforwm Bord Gron Uniondeb Etholiadol lle y gall y rheini â phrofiad o ymdrin ag achosion o gamymddwyn etholiadol neu sydd wedi cyflwyno dull gweithredu arloesol er mwyn helpu i wella uniondeb etholiadau gyfarfod a thrafod materion allweddol. Gyda chymorth gan NPCC a swyddogion SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, mae'r Comisiwn yn casglu ac yn dadansoddi data am honiadau o dwyll etholiadol ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar achosion o dwyll etholiadol honedig.

Gall swyddogion SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau gysylltu â staff rhanbarthol y Comisiwn er mwyn helpu i baratoi ar gyfer etholiadau (e.e. cyn datblygu gorchymyn gweithredol). Gall y cysylltiadau rhanbarthol hyn ddarparu gwybodaeth am y canlynol:



- y math o etholiadau a gynhelir bob blwyddyn (e.e. Senedd Ewrop, Etholiad Cyffredinol y DU, Siroedd, Dosbarthau ac eraill) yn ardaloedd yr heddlu
- pa awdurdodau sy'n cynnal etholiadau yn ardal eu heddlu
- manylion cyswllt perthnasol ar gyfer pob awdurdod lleol.

Mae'r Comisiwn yn annog swyddogion SPOC i gysylltu â thîm eu Swyddfa yn Rhanbarth Lloegr neu eu Swyddfa Ddatganoledig i ddechrau pan fydd mater neu ymholiad yn codi mewn perthynas ag etholiad ac yr hoffent ei drafod. Mae'r manylion cyswllt ar gael [yma](#).

Mae cyfarwyddiaeth Cyllid Gwleidyddol a Rheoleiddio'r Comisiwn Etholiadol yn cofrestru ac yn rheoleiddio cyllid pleidiau gwleidyddol ac eraill sy'n cymryd rhan mewn etholiadau a refferenda. Mae'n cynnwys timau sy'n arbenigo mewn cofrestru, canllawiau, cydymffurfiaeth a gorfodi ac mae'n:

- rhoi cyngor ac arweiniad er mwyn helpu pobl i ddeall y rheolau
- derbyn, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am gyllid pleidiau ac etholiadau
- monitro i ba raddau y caiff y rheolau eu dilyn a, lle bo angen, ymdrin ag achosion posibl o dorri'r rheolau
- cynghori'r llywodraeth ar newidiadau i'r rheolau a gwneud argymhellion ar gyfer newid.

Mae gan y Comisiwn bwerau ymchwilio penodol, ac amrywiaeth o sancsiynau sifil y gall eu gorfodi fel dewis amgen i erlyniad troseddol. Ceir manylion am rôl orfodi'r Comisiwn a rhagor o wybodaeth [yma](#).

Gellir cysylltu â chyfarwyddiaeth Cyllid Gwleidyddol a Rheoleiddio'r Comisiwn os ymddengys bod trosedd wedi'i chyflawni mewn perthynas â chofnodi gwariant neu roddion etholiadau gan ymgeisydd neu blaid wleidyddol. Mae manylion cyswllt y gyfarwyddiaeth Cyllid Gwleidyddol a Rheoleiddio (a manylion cyswllt eraill perthnasol yn y Comisiwn Etholiadol) ar gael [yma](#).

## Gwasanaeth Erlyn y Goron

Mae [Gwasanaeth Erlyn y Goron](#) yn gyfrifol am benderfynu a oes digon o dystiolaeth ac, os felly, p'un a yw erlyn unrhyw achos penodol o fudd i'r cyhoedd. Is-adran Troseddau Arbennig a Gwrthderfysgaeth (SCCTD) y CPS sy'n ymdrin â honiadau o gamymddwyn etholiadol, nid ardaloedd lleol y CPS. Dylid cyfeirio pob cais am gyngor neu benderfyniad i erlyn at yr erlynwyr arbenigol yn y SCCTD berthnasol. Mae swyddfa Llundain yn ymdrin â Llundain, rhanbarth Dwyrain Lloegr, De-ddwyrain Lloegr a De-orllewin Lloegr. Mae swyddfa Caerefrog yn ymdrin â gweddill Lloegr a Chymru.

Dim ond gyda chymeradwyaeth [swyddog SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau](#) y dylid cysylltu â'r CPS. Mae'r CPS yn disgwyl i dystiolaeth a cheisiadau am gyngor gael eu cyflwyno ar ffurf electronig.

Mae manylion cyswllt perthnasol ar gyfer y CPS ar gael [yma](#).

Er yr anogir swyddogion i gysylltu â swyddfa briodol y CPS drwy eu SPOC yn gynnar yn yr ymchwiliad, rhaid i'r swyddog sy'n gofyn am gyngor dros y ffôn neu drwy e-bost fod yn gyfarwydd â'r materion y mae am gael cyngor yn eu cylch. Mae'r wybodaeth y mae angen ei darparu yn cynnwys **o leiaf** y canlynol:

- manylion yr achwynydd
- manylion yr unigolyn yr amheuir ei fod wedi troseddu
- y drosedd arfaethedig h.y. pa adran o Ddeddf 1983 yr honnir bod y troseddwr wedi mynd yn groes iddi
- manylion yr etholiad a'r ardal etholiadol lle yr honnir i'r drosedd gael ei chyflawni
- y dyddiad yr honnir bod y drosedd wedi digwydd.

Mae'n bosibl y bydd yn fwy priodol i swyddogion eraill a'r CPS yn lleol ymdrin â rhai troseddau penodol sy'n digwydd yn ystod etholiadau e.e. cofrestriad ffug er mwyn cyflawni twyll ariannol, yn hytrach na gweithwyr achos arbennig y CPS.

Y CPS sy'n gyfrifol am bob penderfyniad o ran cyhuddiadau, gan gynnwys rhybuddion. Rhaid i unrhyw fath o warediad cadarnhaol gael ei gyflwyno i'r CPS drwy SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau.

## Ystyriaethau rheoli a chynllunio

---

Bydd [gwaith cynllunio effeithiol cyn yr etholiad a threfniadau gweithio mewn partneriaeth](#) yn helpu i nodi'r gofynion rheoli, cynllunio gweithredol a gweithredu sy'n gysylltiedig â phlismaona etholiad. Dylid defnyddio'r [Model Penderfynu Cenedlaethol](#) fel sail i bob agwedd ar yr ymgyrch.

Wrth gynllunio i blismaona etholiad, dylai comanderiaid a chynllunwyr ystyried y canlynol:

- arddull a thôn plismaona e.e. dylai'r ffordd y caiff yr etholiad ei blismaona fod yn agored, yn hygyrch, yn ddiuedd ac yn deg
- datblygu ymateb plismaona cymesur
- cynnwys cyngor arbenigol wrth gynllunio ac yn yr ymgyrch blismaona e.e. swyddog SPOC yr heddlu ar gyfer yr etholiad, y Comisiwn Etholiadol, yr uned diogelu'r cyhoedd, yr uned seiberdroseddau
- y gofyniad am rolau rheoli efydd gweithredol penodedig e.e. comander yr etholiad, troseddau efydd, cudd-wybodaeth efydd, cymuned efydd, cyfryngau efydd, diogelu ymgeiswyr/ymgyrchwyr efydd, diogelwch efydd.
- graddfa ymateb yr heddlu, y gallai  
cudd-wybodaeth a gwybodaeth ddylanwadu arno (yr heddlu, yr awdurdod lleol ac, os cânt eu rhoi ar waith, unrhyw ymgyrchoedd plismaona cenedlaethol sy'n gysylltiedig â'r etholiad)

asesu bygythiadau

lefel diddordeb y cyfryngau

goblygiadau, disgwyliaid a hyder y gymuned

hanes blaenorol o gamymddwyn etholiadol yn ardal yr heddlu/wardiau penodol

- sefydlu protocolau a pharamedrau clir, lle y bo'n berthnasol, rhwng gwahanol rannau o'r ymgyrch blismona er mwyn sicrhau y gellir lliniaru achosion posibl o wrthdaro gweithredol, er enghraifft, gwahanu'r broses o ymchwilio i aflonyddu, bygylu ac ymddygiad bygythiol mewn perthynas ag ymgeiswyr/ymgyrchwyr o'r broses o ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol
- rôl yr heddlu yn ystod yr ymgyrch e.e. hwyluso'r trefniadau ar gyfer pleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio penodol, cynnal yr heddwch yn ystod y broses gyfrif ar gyfer yr etholiad
- gallu ac adnoddau (gan gynnwys rheoli)
- penodi [rolau allweddol](#) a deall rolau partner
- y gofyniad am adnoddau arbenigol e.e. uned cymorth yr heddlu, swyddogion briffio, staff diogelu'r cyhoedd, swyddogion cudd-wybodaeth
- [y fframwaith cyfreithiol](#) sy'n sail i'r gwaith cynllunio a'r ymgyrch
- [cynlluniau cyfathrebu](#)
- casglu, gwerthuso, dadansoddi a dosbarthu cudd-wybodaeth
- nodi unigolyn neu adran benodedig y gall ymgeiswyr / ymgyrchwyr gysylltu ag ef / hi os bydd ganddynt bryderon sy'n ymwneud ag aflonyddu, bygylu neu ymddygiad bygythiol
- gwydnwch rheoli
- cynllunio wrth gefn
- polisi ymyrryd h.y. y cytunwyd arno â'r awdurdod ac sydd wedi'i ddogfennu o ran ymyriadau gan yr heddlu yn ystod yr etholiad
- y gofyniad i ddarparu hyfforddiant perthnasol i staff
- briffio staff e.e. negeseuon allweddol, a yw'r staff yn ymwybodol o'u pwerau a pholisi'r heddlu o ran plismona'r etholiad?

## Asesu bygythiadau

Dylid cynnwys asesiad o'r bygythiadau o ran y posibilrwydd y ceir achosion o gamymddwyn etholiadol, achosion o fygylu ymgeiswyr a bygythiadau i bleidleisio heddychlon yn yr ystyriaethau rheoli a chynllunio. Bydd hyn yn helpu i nodi meysydd lle y gallai fod risg uwch. Felly, bydd angen i'r asesiad o'r bygythiadau ystyried y canlynol:

- cudd-wybodaeth a gwybodaeth berthnasol
- hanes blaenorol o droseddau etholiadol neu honiadau sy'n gysylltiedig â'r ardal ddaearyddol

## SWYDDOGOL

- y potensial i droseddau gael eu cyflawni o ganlyniad, er enghraifft, i ddiffyg plismona, awdurdod lleol nad yw wedi paratoi'n drylwyr, hunanfodlonrwydd, diwylliant gwleidyddol
- dynameg y gymuned e.e. poblogaeth dros dro, lefel yr ymgysylltu rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol a'r gymuned
- y rheolaeth a'r dylanwad sy'n gysylltiedig â gweithwyr ac ymgeiswyr y blaid wleidyddol
- y bobl sy'n cymryd rhan yn yr etholiad, megis yr ymgeiswyr a'r asiantiaid
- digwyddiadau'r ymgyrch, er enghraifft, hustyngau
- safleoedd sy'n gysylltiedig â'r etholiad, er enghraifft, gorsafoedd pleidleisio a swyddfeydd etholaeth
- cartrefi ymgeiswyr/ymgyrchwyr a lleoliadau eraill y maent yn mynd iddynt yn rheolaidd.

Dylid ystyried y mathau canlynol o niwed fel rhan o'r asesiad hwn:

- ymosodiad corfforol / ymosodiad yn erbyn unigolion
- aflonyddu / bygythiadau / bygylu unigolion yn bersonol
- aflonyddu / bygythiadau / bygylu unigolion gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- anhrefn sy'n gysylltiedig â'r etholiad
- difrod troseddol i eiddo a safleoedd
- protestiadau / arddangosiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt
- protestiadau / arddangosiadau dirybudd
- troseddau casineb
- seiberdroseddau sy'n gysylltiedig â'r etholiad
- amharu ar broses, er enghraifft, galwadau ffug, gweithredu larymau
- ymyrryd â'r broses, er enghraifft, ymyrryd â blychau / cambersonadu.

## Ystyriaethau ar ddiwrnod yr etholiad

### Rhagor o wybodaeth

Diogelwch yn ystod Etholiad: Nodiadau Canllaw

Dylid ystyried y broses o blismona diwrnod yr etholiad mor gynnar â phosibl yn ystod y broses gynllunio. Mae gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif yn bwysig iawn. Mae'r ystyriaethau perthnasol yn cynnwys y canlynol:

- lleoliadau ac asesu pa mor agored i niwed ydynt
- presenoldeb yr heddlu h.y. presenoldeb parhaol gan yr heddlu, presenoldeb achlysurol neu ddim presenoldeb

- pwerau'r heddlu e.e. mynd i mewn i orsafoedd pleidleisio, ymateb i geisiadau gan swyddogion canlyniadau
- strategaethau a thactegau er mwyn lleihau'r risg y ceir anhrefn gyhoeddus ac achosion o fygyly, sicrhau mynediad mor hawdd a dirwysr â phosibl, lleihau'r risg o drais/bygyly i staff gorsafoedd pleidleisio/cyfrif, lleihau'r risg y ceir achosion o gamymddwyn etholiadol
- strategaethau a thactegau i arestio unigolion, atafael a chadw unrhyw dystiolaeth.

Noder: ni chaniateir teledu cylch cyfyng (CCTV) mewn gorsafoedd pleidleisio. Fodd bynnag, gall fod systemau CCTV fod wedi'u gosod yn allanol ar rai o'r adeiladau a ddefnyddir fel gorsafoedd pleidleisio a allai gynnig cyfleoedd i gasglu tystiolaeth.

Mae angen ystyried [camau allweddol yn ystod y broses etholiadol](#) a [chynnal trefn ac atal dylanwad gormodol y tu allan i orsafoedd pleidleisio](#) hefyd wrth gynllunio.

## Gweithio mewn partneriaeth

---

Mae'n rhaid i bartneriaid ystyried gofynion sy'n cystadlu â'i gilydd am eu hadnoddau ac mae angen i unrhyw benderfyniadau gweithredol roi ystyriaeth lawn i flaenoriaethau partneriaid ac argaeledd ehangach adnoddau. Er mwyn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth, mae angen i'r partneriaid gydweithredu â'i gilydd wrth gynllunio, [rhannu gwybodaeth](#) a chynnal ymgyrchoedd ac ymchwiliadau. Mae gwaith ymgysylltu cynnar a llinellau cyfathrebu a pherchenogaeth glir dros y camau gweithredu y cytunwyd arnynt rhwng yr heddlu a phartneriaid yn sicrhau bod pawb sy'n rhan o'r broses o gynllunio a phlisma etholiad yn ymwybodol o'r ymgyrch blisma, gan sicrhau dull gweithredu 'heb unrhyw beth annisgwyl' a chan ddangos ymateb plisma cymesur.

## Partneriaid

### Rhagor o wybodaeth

[Y Post Brenhinol, Y Comisiwn Etholiadol \(2014 Pleidleisio drwy'r post - canllaw cyflym i yrwyr y Post Brenhinol a staff dosbarthu](#)

[Y Post Brenhinol \(2014\) Pleidleisio drwy'r post](#)

Er mwyn plisma etholiadau, gan gynnwys unrhyw ymchwiliadau i gamymddwyn, mae angen i'r heddlu ymgysylltu â nifer o bartneriaid, gan gynnwys y canlynol:

- awdurdodau lleol
- [Y Comisiwn Etholiadol](#)
- Grŵp y Post Brenhinol Cyf
- CPS
- pleidiau gwleidyddol.

Mae swyddog SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau yn gyfrifol am gydgyssylltu â swyddogion canlyniadau awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y cynigir cymorth priodol ac y cânt y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ymchwiliad troseddol sy'n mynd rhagddo yn eu hawdurdod lleol. Mae hefyd yn cydgyssylltu â chyfreithiwr penodedig y CPS ar hynt yr achos ac yn cynrychioli'r heddlu ar lefel genedlaethol, gan gydgyssylltu â'r Comisiwn Etholiadol a [Gweithgor Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Camymddwyn Etholiadol](#) er mwyn cyflwyno darlun cywir o'r ffordd y caiff etholiadau eu plismona yn ardal yr heddlu.

## Cynllunio cyn yr etholiad

Mae cydweithio er mwyn creu cynllun cadarn cyn etholiad yn helpu'r heddlu a phartneriaid i oresgyn unrhyw faterion a all godi ac yn galluogi swyddogion penodedig i gael eu briffio'n llawn ac i gysylltu ag uwch swyddogion o'r ddau sefydliad. Mae rhannu dealltwriaeth a gwybodaeth, a meddu ar ymwybyddiaeth o sensitifrwyddau gwleidyddol ac asesu'r risgiau posibl, yn golygu y gall y broses o wneud penderfyniadau fod yn drefnus ac yn hyddysg, ac y caiff materion, honiadau a disgwyliadau rhanddeiliaid eu hystyried.

Mae buddiannau ychwanegol cynllunio ar y cyd yn cynnwys y canlynol:

- gellir nodi materion allweddol mewn perthynas ag uniondeb ymlaen llaw a'u cofnodi
- gellir cytuno ar ddulliau gweithredu
- gellir ystyried systemau priodol ar gyfer atgyfeirio gwahanol fathau o gamymddwyn, amheuan a honiadau (disgwyliedig neu sy'n dod i'r amlwg) ac ymateb iddynt
- gellir asesu risgiau'n briodol
- gellir rhoi mesurau rheoli ar waith.

Mae'r unigolion y dylid eu cynnwys yn y gwaith cynllunio yn cynnwys y canlynol:

- comander aur
- comander arian
- SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a'r comander(iaid) efydd
- swyddogion cynllunio/cynllunio isadrannol yr heddlu
- swyddogion SPOC ar gyfer troseddau
- swyddogion y cyfryngau/y wasg yr awdurdod lleol, yr heddlu a'r Comisiwn Etholiadol
- swyddogion gweithredol/swyddogion canlyniadau a swyddogion cofrestru etholiadol yr awdurdod lleol
- rheolwyr swyddfa ddiidoli/rheolwyr cyfrif Grŵp y Post Brenhinol Cyf (os oes angen neu os yw'n briodol)
- timau plismona cymdogaethau/uwch swyddog ymchwilio.

Y prif gyfarfodydd cynllunio yw cyfarfod y grŵp rheoli aur a chyfarfod cynllunio'r gweithgor asiantaethol ar y cyd. Caiff tasgau, y dylai SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau eu cofnodi a'u rheoli, eu neilltuo yn ystod cyfarfod y gweithgor asiantaethol ar y cyd. Dylid cyfeirio at y ddogfen ddadfrifio o'r etholiad blaenorol er mwyn helpu i baratoi asesiad risg, tynnu sylw at arfer da neu nodi meysydd i'w gwella.

Dylai SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol lunio cynllun ar gyfer ymdrin ag achosion o gamymddwyn etholiadol ([gall y rhestr wirio hon](#) hwyluso'r broses gynllunio). Bydd [memorandwm cyd-ddealltwriaeth](#) rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol yn darparu dealltwriaeth glir a chytundeb o ran y rolau, y cyfrifoldebau a'r cydweithrediad sydd eu hangen. [Gallai camau penodol yn ystod amserlen yr etholiad](#) ysgogi mathau penodol o gamymddwyn. Gall y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol ddarparu rhagor o wybodaeth i SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol mewn sefyllfa unigryw i nodi gweithgaredd amheus, yn hytrach nag ymgyrchu dilys, a gall gysylltu â SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau ar ôl cynnal gwiriadau sy'n nodi ymddygiad amheus mewn cymdogaethau risg uchel. Dylid rhannu unrhyw wybodaeth â SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a dylai'r wybodaeth honno fod yn rhan o'r gweithgarwch cynllunio.

Dylid cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng yr heddlu a'r awdurdod lleol ar ôl yr etholiad er mwyn adolygu'r digwyddiad, y systemau sydd ar waith a nodi lle y mae angen newidiadau neu ddull gweithredu amgen.

## Memorandwm cyd-ddealltwriaeth

Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn adnodd defnyddiol wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Dylai heddluoedd ymrwymo i Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth â phob awdurdod lleol yn ardal yr heddlu. Dylai nodi dealltwriaeth gyffredin o'r ffordd y byddant o bosibl yn cydweithredu er mwyn sicrhau y caiff etholiadau a refferenda eu cynnal mewn ffordd deg a chynhwysol ac yn unol â'r gyfraith. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu ac awdurdodau lleol am ystyried defnyddio [templod drafft](#) i lunio sail ar gyfer eu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Gellir ei olygu er mwyn bodloni gofynion lleol.

## Yr amserlen a argymhellir ar gyfer digwyddiadau ar gyfer etholiad ym mis Mai

Digwyddiad	Dyddiad	Cyfrifoldeb
Sefydlu grŵp aur a strategaeth aur	Ionawr/Chwefror	Prif Gwnstabl Cynorthwyol
Mynychu seminar cenedlaethol NPCC a'r	Ionawr/Chwefror	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau

SWYDDOGOL

Comisiwn Etholiadol i swyddogion SPOC		
Nodi comanderiaid arian BCU, swyddogion SPOC BCU ar gyfer troseddau, arweinwyr NPT, swyddogion canlyniadau a dirprwyon awdurdodau lleol	Chwefror	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
Cyfarfod aur rhwng y comander aur, swyddog SPOC yr heddlu, comanderiaid arian, swyddogion SPOC BCU ar gyfer troseddau, swyddogion cynllunio'r heddlu, swyddogion cyfryngau'r heddlu	Chwefror/Mawrth	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
Cyfarfodydd cynllunio rhwng swyddog SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, swyddogion SPOC BCU ar gyfer troseddau, swyddogion canlyniadau a'u dirprwyon, cynghorwyr diogelwch/rheolwr cyfrif Grŵp y Post Brenhinol Cyf (os oes angen)	Mawrth/Ebrill/Mai	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
Hysbysu am enwebeion i sefyll fel darpar ymgeiswyr mewn etholiadau (gan gynnwys hysbysu am asiantiaid etholiadol)	Mawrth/Ebrill	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
Llythyr ar y cyd gan yr heddlu/awdurdod lleol at ymgeiswyr	Ebrill	Prif gwnstabl/awdurdod lleol
Briffio ymgeiswyr ac asiantiaid etholiadol	Ebrill/Mai	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau



## SWYDDOGOL

Canllawiau a hyfforddiant i swyddogion yr heddlu ac aelodau o staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau etholiadol	Ebrill/Mai	Swyddog SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau/comander(iaid) arian
Diwrnod yr etholiad	Dydd Iau ym mis Mai	Swyddog canlyniadau
Cyfarfod dadfriffio'r Comisiwn Etholiadol	Mehefin/Gorffennaf	Comisiwn Etholiadol
Archifo gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag ymholiadau a chwblhau'r gwaith o ledaenu cudd-wybodaeth	Awst	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
Dadfriffio'r grŵp aur	Medi	SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau

I gael rhagor o wybodaeth, gweler [camau allweddol yn y broses etholiadol](#).

## Cyfathrebu

---

Dylai prosesau [cyfathrebu ac ymgysylltu](#) barhau fel y bo angen ar ôl yr etholiad, yn ogystal â chyn yr arholiad ac yn ystod yr arholiad.

Mae gan bob heddlu [swyddog SPOC enwebedig ar gyfer yr etholiad](#) sy'n cydgysylltu rhwng yr heddlu, y Comisiwn Etholiadol, a Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol yr awdurdod lleol (neu'r rôl gyfatebol leol). Gellir penodi comanderiaid efydd gweithredol ar gyfer gweithgareddau cyfathrebu, y cyfryngau a/neu gymunedol os ystyrir bod eu hangen.

## Didueddrwydd

---

Dylai'r heddlu a'r awdurdod lleol sicrhau eu bod yn parhau'n ddiuedd wrth ymdrin ag ymgeiswyr, ymgyrchwyr a phleidiau gwleidyddol.

Gwaherddir awdurdodau lleol ar unrhyw adeg rhag cyhoeddi deunydd yr ymddengys ei fod wedi'i gynllunio, boed yn llwyr neu'n rhannol, i ddylanwadu ar gefnogaeth y cyhoedd tuag at blaid wleidyddol. Gall hyn gynnwys datganiadau i'r wasg, llyfrynnau, taflenni, hysbysebion, cylchlythyrau, gwefan y cyngor, rhwydweithiau'r cyfryngau cymdeithasol a chynnal digwyddiadau. Dylai swyddog monitro'r awdurdod lleol ystyried p'un a ddylid gwahardd cyhoeddusrwydd yn unol ag [adran 2](#) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1986.

Mae [Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoeddusrwydd gan Awdurdodau Lleol](#) yn gymwys i ohebiaeth a chyhoeddusrwydd yn ystod cyfnod yr etholiad. Mae'r cyfnod hwn, y cyfeirir ato hefyd yn answyddogol fel 'cyfnod purdah', yn dechrau pan gyflwynir yr Hysbysiad Etholiad (dechrau ffurfiol amserlen yr etholiad) ac yn parhau am tua chwe wythnos hyd at yr etholiad. Bydd yr awdurdod lleol yn ddarostyngedig i gyfyngiadau yn ystod y cyfnod hwn. Dylid rhoi gwybod i swyddog monitro'r awdurdod lleol am unrhyw achos o dorri'r Cod hwn.

Mae [NPCC \(2019\) Pre Election Guidance](#) yn cynnig rhagor o gyngor i'r heddlu wrth ryngweithio ag ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol, eu cynrychiolwyr neu eu cefnogwyr. O dan [adran 100\(1\)](#) o Ddeddf 1983, mae'n anghyfreithiol i swyddogion yr heddlu ganfasio yn ystod etholiadau seneddol neu etholiadau llywodraeth leol boed yn llwyr neu'n rhannol o fewn ardal yr heddlu, ac mae'r [Cod Moeseg](#) yn atgyfnerthu'r angen i swyddogion a staff yr heddlu ymddwyn mewn ffordd ddiuedd.

## Strategaeth gyfathrebu

---

Gall hyn helpu i feithrin hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn rôl yr heddlu yn ystod yr etholiad. Mae comanderiaid yn gyfrifol am sicrhau bod y strwythur rheoli yn hwyluso trefniadau cyfathrebu effeithiol, ac am lunio strategaeth gyfathrebu, a ddylai gynnwys y canlynol:

- defnyddio dulliau ymgysylltu a thrafod i ddangos dull gweithredu 'heb unrhyw beth annisgwyl'
- meithrin a chynnal cysylltiadau â phleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, cymunedau, grwpiau cyswllt, gweithwyr pleidiau ac asiantiaid perthnasol eraill er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder
- cydgysylltu gweithgareddau cyfathrebu â'r awdurdod lleol
- cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â'r cyhoedd, y cymunedau yr effeithir arnynt a'r cyfryngau os ceir honiadau o dwyll yn ystod yr etholiad.

## Ymgeiswyr ac ymgyrchwyr

**Noder:** Ymddygiad, Bygythiad ac Ymddygiad Bygythiol

Mae cynnyrch ar gyfer ymgeiswyr ac ymgyrchwyr wedi'u datblygu mewn ymateb i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus: 'Pan fydd yn mynd rhy bell', a 'Canllawiau ar y Cyd ar gyfer Ymgeiswyr mewn Etholiadau'. Maent hefyd ar gael gan y Comisiwn Etholiadol. Mae fersiynau Cymraeg ar gael yma: <https://www.electoralcommission.org.uk/cy/rwyf-yneg-pleidleisiwr/ymgeisydd-neu-asiant>). Rhaid i'r cynhyrchion hyn ac unrhyw gyngor perthnasol arall fod ar gael i

ymgeiswyr ac ymgyrchwyr. Mae'r pecynnau briffio ymgeiswyr a/neu'r digwyddiadau briffio yn gyfle delfrydol i ledaenu'r cynhyrchion hyn a chodi ymwybyddiaeth o sut y gall ymgeiswyr/ymgyrchwyr roi gwybod am unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau ynghylch aflonyddu, bygwth neu ymddygiad fygythiol. Anogir heddluoedd i sicrhau y gall ymgeiswyr/ymgyrchwyr gysylltu ag unigolyn a enwir a/neu adran ymroddedig i drafod unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch y math hwn o ymddygiad. Gall comanderiaid ddefnyddio dulliau amrywiol i ymgysylltu â darpar ymgeiswyr a gweithwyr pleidiau, gan gynnwys pecynnau briffio i ymgeiswyr, cyfarfodydd unigol a negeseuon e-bost.

Mae presenoldeb yr heddlu yn y cyfarfod briffio i ymgeiswyr ac asiantiaid a gynhelir gan y swyddog canlyniadau yn dangos y dull gweithredu ar y cyd gan yr heddlu a'r awdurdod lleol, ac yn atgyfnerthu'r disgwyliadau o ran ymddygiad y rheini sy'n sefyll etholiad a'u hasiantiaid. Yn ogystal, gall y swyddog canlyniadau a'r prif gwnstabl anfon [llythyr ar y cyd](#) at ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr yn nodi'r safonau ymddygiad disgwylidiedig ac yn gofyn iddynt gytuno i gydymffurfio â dogfen y Comisiwn Etholiadol [Cod ymddygiad i ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio](#). Os bydd ymgeisydd yn methu â llofnodi ei gytundeb, gall hyn fod yn destun pryder.

Mae cod ymddygiad y Comisiwn Etholiadol i ymgyrchwyr: [pleidleisio drwy'r post](#), [pleidleisio drwy ddirprwy](#) a [gorsafoedd pleidleisio](#) ym Mhrydain Fawr yn nodi'r hyn a gaiff a'r hyn na chaiff ei ystyried yn ymddygiad derbyniol mewn gorsafoedd pleidleisio ac yn y gymuned yn ystod y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio. Er mai cytundeb anstatudol yw'r Cod Ymddygiad, fe'i datblygwyd yn dilyn ymgynghoriad agored ac mae'r prif bleidiau gwleidyddol wedi ymrwymo i'r Cod. Ceir rhagor o wybodaeth gan y [Comisiwn Etholiadol](#).

Gall pleidiau gwleidyddol sefydlu swyddfeydd dros dro mewn ardaloedd sy'n peri pryder, er enghraifft, wrth ymyl gorsaf pleidleisio. Gall hyn arwain at honiadau o ymddygiad annerbyniol megis cynnig lletygarwch amhriodol i ddarpar pleidleiswyr. Mae'n bosibl y bydd yr heddlu yn awyddus i ymweld â'r safle, sy'n dangos i weithwyr pleidiau bod eu presenoldeb wedi'i nodi ac sy'n cynnig cyfle i atgyfnerthu'r neges am y safonau ymddygiad disgwylidiedig.

## Cymunedau

Dylai'r comander aur sicrhau bod ymgysylltu â'r gymuned mewn ffordd gadarnhaol yn rhan allweddol o'r strategaeth aur. Dylai comanderiaid arian lunio strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer pob ardal sy'n rhan o'r BCU. Dylai hyn gynnwys cynllun ar gyfer casglu gwybodaeth gymunedol, naill ai drwy weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned arferol neu drwy weithgareddau a reolir. Dylai hefyd ystyried p'un a oes angen cynnal [asesiad o'r effaith ar y gymuned](#).

Mae arolygwyr cymdogaethau yn gyfrifol am roi'r strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ar waith ac maent yn chwarae rhan allweddol wrth weithio gyda'r gymuned leol a phartneriaid er mwyn creu cymdogaeth hyderus, fwy diogel lle y mae unigolion yn teimlo

bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn cefnogi eu hawl ddemocrataidd i bleidleisio. Gallant wneud hyn drwy ymgysylltu ag arweinwyr cymunedol a rhwydweithiau allweddol cyn yr etholiad, yn ystod yr etholiad ac ar ôl yr etholiad.

Gall negeseuon gan yr heddlu, drwy arweinwyr cymunedol (megis cyfryngwyr neu grwpiau cynghori annibynnol) a thrwy fynychu cynullïadau cymunedol, helpu i atgyfnerthu dull gweithredu cadarnhaol a chydlynol o fewn cymunedau.

## Y cyfryngau

Mae cyfathrebu priodol â'r cyfryngau cyn etholiadau, yn ystod etholiadau ac ar ôl etholiadau yn cyfleu safbwynt plismona digwyddiadau, y gall fod ei angen lle y gwneir honiadau a gwrth-honiadau gan un blaid neu ymgeisydd yn erbyn un arall. Y comander aur sy'n gyfrifol am strategaeth y cyfryngau.

Mae'n bosibl y bydd heddluoedd am gyhoeddi datganiad ar y cyd ar ddechrau'r ymgyrch etholiadol wedi'i gymeradwyo gan bob ymgeisydd a phlaidd, y swyddog canlyniadau a'r heddlu lleol. Mae hyn yn dangos dull gweithredu ar y cyd clir a chydlynol. Fodd bynnag, dylid sicrhau mai cytundeb gwirfoddol yw'r cytundeb hwn ac ni ddylid gosod unrhyw stigma ar unrhyw blaid neu ymgeisydd sy'n dewis peidio â chymryd rhan. Gall y Comisiwn Etholiadol weithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer datganiadau i'r wasg, yn enwedig cyn arestio neu erlyn unrhyw unigolyn. Mae'r manylion cyswllt ar gael [yma](#).

Gall [honiadau o gamymddwyn etholiadol](#) arwain at sylw negyddol yn y wasg ar lefel leol a chenedlaethol a gall y sylw hwn fod yn ddwys lle y bydd ymgeiswyr proffil uchel yn sefyll etholiad. Mae angen i SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol fod yn ymwybodol y gall cynrychiolwyr y cyfryngau geisio profi uniondeb y system. Os na fydd cynlluniau cydgysylltiedig ar waith, gall hyn olygu y bydd y naill sefydliad neu'r llall yn agored i niwed a gall gael effaith andwyol ar y broses ddemocrataidd, yr awdurdod lleol a'r heddlu. Mae dull gweithredu ar y cyd mewn perthynas â'r cyfryngau yn helpu i ddangos safbwynt rheoledig a hyddysg gan y ddau sefydliad ac i sicrhau cysondeb o ran y negeseuon a gaiff eu cyfleu.

## Ar ôl yr etholiad

---

### Dadfrifio ar ôl yr etholiad

#### Rhagor o wybodaeth

##### [Dadfrifio](#)

Mae swyddogion SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a chomanderaid arian yn gyfrifol am sicrhau y gallant ddadfrifio eu comander aur a'r Comisiwn Etholiadol am ddigwyddiadau a honiadau a gafwyd yn ystod cyfnod yr etholiad.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn derbyn gwybodaeth drwy'r cyflwyniadau y mae'r heddlu yn eu rhoi i [Weithgor Cenedlaethol yr Heddlu ar gyfer Camymddwyn Etholiadol](#) a

gohebiaeth reolaidd rhwng swyddogion SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a staff uniondeb y Comisiwn Etholiadol.

Dylid ystyried y canlynol wrth ddadfrifio:

- materion sy'n ymwneud â chynllunio a pharatoi ar gyfer plismona'r etholiad
- y diwrnod pleidleisio (e.e. gorsafoedd pleidleisio, y broses gyfrif)
- nifer yr honiadau a gafwyd (gan gynnwys ystyried unrhyw gynnydd neu ostyngiad mewn honiadau o fewn cymunedau risg uchel)
- digwyddiadau arwyddocaol (materion cymunedol a gwleidyddol)
- statws cyfredol unrhyw ymchwiliadau (e.e. arestiadau neu gyhuddiadau tebygol)
- adborth gan asiantaethau partner, swyddogion canlyniadau, y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol neu rolau cyfatebol lleol
- diddordeb gan y cyfryngau
- deddfwriaeth neu ddysgu sefydliadol newydd a fyddai o fudd wrth gynllunio yn y dyfodol.

## Dysgu sefydliadol

Dylid cynnwys gwybodaeth yn deillio o weithgarwch dadfrifio wrth gynllunio ar gyfer etholiadau yn y dyfodol a dylai fod yn rhan o unrhyw orchymyn gweithredu o fewn yr heddlu.

Dylid addasu unrhyw ddysgu sefydliadol sydd ar gael a allai fod o fudd i heddluoedd eraill a'i gyflwyno i'r Comisiwn Etholiadol er mwyn ystyried ei ddsbarthu a'i gynnwys yn y seminar SPOC genedlaethol neu'r cyfarfod uniondeb a gynhelir bob dwy flynedd, neu [Faes Gwybodaeth Dysgu Ar-lein yr Heddlu \(POLKA\)](#) y Coleg Plismona.

## Plismona etholiadau

Egwyddorion a deddfwriaeth graidd

Rolau a gwaith cynllunio allweddol

Ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol

Deunydd cyfeirio

# Plismona etholiadau

## Ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol

### Cynnwys

- 1 Egwyddorion allweddol
- 2 Meini prawf blaenoriaethu ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn etholiadol
  - 2.1 Pa mor frys yw'r honiad
  - 2.2 Difrifoldeb yr honiad
  - 2.3 Cymhlethdod yr honiad
  - 2.4 Maint yr ymchwiliad
- 3 Rheoli ymchwiliadau a honiadau lluosog
  - 3.1 Rheoli deunydd
  - 3.2 Strategaeth ymchwilio
- 4 Troseddau camymddwyn etholiadol
  - 4.1 Argraffnodau
    - 4.1.1 Rheolau ar argraffnodau
    - 4.1.2 Sut i leoli argraffnod
    - 4.1.3 Gorfodi rheolau argraffnod
    - 4.1.4 Rheolau argraffnod ymgeiswyr, adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983
    - 4.1.5 Rheolau argraffnod pleidiau (PPERA)
    - 4.1.6 Gwahaniaethu rhwng rheolau argraffnod ymgeiswyr a phleidiau
    - 4.1.7 Ymchwilio i honiadau ynghylch argraffnod
    - 4.1.8 Ymateb yr heddlu i honiad o dorri rheolau argraffnod
    - 4.1.9 Llythyr cyngor
  - 4.2 Datganiad ffeithiau ffug mewn perthynas ag ymgeisydd
    - 4.2.1 Ymchwilio i honiad o ddatganiad ffeithiau ffug mewn perthynas ag ymgeisydd
    - 4.2.2 Ymateb yr heddlu
  - 4.3 Gwybodaeth gofrestru ffug
    - 4.3.1 Cymhwysedd i bleidleisio
    - 4.3.2 Ymchwilio i wybodaeth gofrestru ffug
    - 4.3.3 Casglu tystiolaeth (gwybodaeth gofrestru ffug)
    - 4.3.4 Ffynonellau tystiolaeth eilaidd
    - 4.3.5 Cais anwir am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy
    - 4.3.6 Cymhwysedd i gael pleidlais bost

- 4.3.7 Cymhwysedd i gael pleidlais drwy ddirprwy
- 4.3.8 Ymchwilio i gais anwir am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy
- 4.3.9 Casglu tystiolaeth (cais anwir am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy)
- 4.3.10 Ymateb yr heddlu
- 4.4 Cambersonadu
- 4.4.1 Ymchwilio i gambersonadu
- 4.4.2 Datganiadau tystion
- 4.4.3 Casglu tystiolaeth (cambersonadu)
- 4.4.4 Cambersonadu drwy bleidlais drwy ddirprwy neu bleidlais bost
- 4.5 Datganiad ffug ar bapur enwebu
- 4.5.1 Cymhwysiad ar gyfer enwebiad
- 4.5.2 Manylion ffug ar bapur enwebu
- 4.5.3 Ymchwilio i ddatganiad anwir ar bapur enwebu
- 4.5.4 Ymchwilio i ddilysrwydd llofnod cydsyniwr
- 4.5.5 Ymchwilio i ddilysrwydd cyfeiriad yr ymgeisydd
- 4.6 Llwgwrwbrwyo
- 4.7 Tretio
- 4.7.1 Ymchwilio i honiad o dretio
- 4.8 Dylanwad gormodol
- 4.8.1 Ymchwilio i ddylanwad gormodol
- 4.8.2 Amseriad yr ymchwiliad
- 4.9 Treuliau etholiad a throsteddau rhoddion
- 4.9.1 Trosteddau treuliau etholiad ymgeiswyr
- 4.9.2 Trosteddau sy'n ymwneud â gwariant neu roddion etholiadol
- 5 Trin tystiolaeth
- 5.1 Diogelu a chadw tystiolaeth
- 5.2 Dylid cadw'r ddogfennaeth wreiddiol
- 6 Rheoli'r polisi
- 7 Adnabod tystion
- 8 Honiadau disylwedd gan drydydd parti
- 9 Strategaeth ymadael

## Egwyddorion allweddol

---

Dylai pob ymchwiliad ddilyn y broses ymchwilio ac mae'n rhaid rhoi sylw priodol i ffactorau ymchwilio cychwynnol.

Dyma'r egwyddorion allweddol ar gyfer ymchwilio i gamymddwyn etholiadol:

- dylid dwyn pob honiad sy'n ymwneud ag etholiadau at sylw pwynt cyswllt unigol (SPOC) yr heddlu ar gyfer etholiadau i'w ystyried ac i'ch cyfarwyddo
- bydd SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau yn blaenoriaethu honiadau'n briodol o fewn amserlen dderbyniol

- ni fydd honiadau disylwedd gan drydydd parti yn arwain at gamau pellach
- dylid datblygu a gweithredu **memorandwm cyd-ddealltwriaeth** ar gyd-gynllunio etholiadau a'r broses ar gyfer rhoi gwybod am achosion o gamymddwyn etholiadol ac ymchwilio iddynt
- dylai adran benodol o fewn yr heddlu adolygu'r cyfrifoldeb am gofnodi a diweddarau hynt yr honiadau/ymchwiliadau
- dylai pawb ddeall strwythur y rolau a'r cyfrifoldebau wrth ymdrin â materion etholiadol
- mae'n rhaid cynnal cyfrwng cyfathrebu clir
- ceir trafodaethau â Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) ar yr adeg briodol a gofynnir am gyngor drwy SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
- dylai SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau fonitro'r ymchwiliadau o fewn yr heddlu ac ymgynghori â rheolwyr troseddu yn rheolaidd
- dylid tynnu sylw comanderiaid at unrhyw achosion o oedi
- dylai uwch-dîm arwain yr heddlu gefnogi SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, e.e. drwy ddarparu adnoddau digonol
- Y CPS sy'n gyfrifol am bob penderfyniad o ran cyhuddiadau, gan gynnwys rhybuddion. Rhaid i unrhyw fath o warediad cadarnhaol gael ei gyflwyno i'r CPS drwy SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau.

### Terfynau amser

O dan **adran 176** o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, rhaid i erlyniadau o dan y Ddeddf gychwyn o fewn blwyddyn ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni.

Gellir ymestyn hyn i 24 mis ar y mwyaf ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni, ar gais a wneir o fewn blwyddyn i gyflawni'r drosedd o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os oes amgylchiadau eithriadol, ac
- os na fu unrhyw oedi gormodol wrth ymchwilio i'r drosedd.

## Meini prawf blaenoriaethu ar gyfer ymchwilio i honiadau o gamymddwyn etholiadol

---

Bydd yn rhaid i ymchwiliadau i honiadau o gamymddwyn etholiadol gael eu blaenoriaethu'n effeithiol ar sail y meini prawf canlynol:

- pa mor frys yw'r honiad – yr angen i gadw a diogelu tystiolaeth
- difrifoldeb yr honiad
- cymhlethdod yr honiad
- maint yr ymchwiliad.

### Pa mor frys yw'r honiad



Bydd yn rhaid ymateb ar unwaith i rai honiadau. Bydd angen ymdrin â throseddau megis cambersonadu a thwyll drwy bleidleisiau post yn effeithlon.

Mae achosion o oedi'n gostus a byddant yn peri problemau os bydd pleidleisiau twyllodrus yn cael eu cyfrif. Yr allwedd i lwyddiant yw sicrhau bod digon o staff ar gael mewn ardaloedd risg uchel.

Gall honiadau o gamymddwyn etholiadol ddwysáu'n gyflym. Mae'n hanfodol bod y rhai dan sylw yn deall yr honiad a'r deddfwriaeth berthnasol. Byddai'n werth ymgysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol hefyd.

## **Difrifoldeb yr honiad**

Bydd troseddau sy'n tansilio'r broses ddemocrataidd bob amser yn cael eu blaenoriaethu ar draul y rhai sy'n cael effaith fach iawn. Gall canlyniad nifer bach o bleidleisiau post twyllodrus mewn etholiad lleol fod yr un mor andwyol â nifer mwy mewn etholiad canlynol, gan arwain at yr un gost ac ymdrech o ran adnoddau'r heddlu.

## **Cymhlethdod yr honiad**

Pan fydd troseddau o natur gymhleth, bydd cyngor ar gael gan asiantaethau partner amrywiol os bydd angen:

- gall y Comisiwn Etholiadol helpu drwy esbonio deddfwriaeth a rhoi arweiniad
- gall gwasanaethau cyfreithiol yr heddlu helpu i gael gorchmynion llys sifil er mwyn adennill tystiolaeth ddogfennol nad yw ar gael i'r cyhoedd mwyach neu pan fydd angen cydsyniad barnwr i gael tystiolaeth o'r fath, er enghraifft, bydd angen cael gorchmyn gan y Llys Sirol neu'r Uchel Lys, yn dibynnu ar y math o etholiad, i gael gafael ar bapurau pleidleisio
- gall y swyddog canlyniadau helpu pan fydd yr honiadau'n ymwneud ag ef fel y diffynnydd mewn unrhyw geisiadau sifil a wneir
- gall cyfreithwyr etholiadol dynodedig y CPS ym mhencadlys y CPS yn Efrog a Llundain roi cyngor ar y dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bodloni'r safonau ar gyfer cyhuddo, troseddau perthnasol a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn
- mae gan bleidiau gwleidyddol ar lefel genedlaethol swyddogion sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag uniondeb gweithredoedd eu haelodau, er enghraifft Swyddog Cydymffurfio neu Swyddog Enwebu; gellir ystyried a fyddai'n fuddiol ymgynghori â'r Swyddog Cenedlaethol priodol, drwy SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau
- gellir gofyn am gyngor SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, sy'n meddu ar wybodaeth ymarferol am rôl a chyfrifoldeb yr heddlu, a dealltwriaeth ohonynt mewn perthynas â phlisma pob agwedd ar yr etholiadau.

## **Maint yr ymchwiliad**

Mae maint ymchwiliad yn bwysig. Mae honiad o dwyll sy'n ymwneud â nifer mawr o bleidleisiau post yn enghraifft o ymchwiliad mawr. Gall y drosedd ymwneud â sawl

troseddwr a nifer mawr o ddioddefwyr y gall fod angen eu holrhain a chyfweld â nhw. Mewn rhai ardaloedd a chymunedau, gall fod yn anodd olrhain dioddefwyr. Wrth ystyried maint ymchwiliad, dylai'r uwch-swyddog ymchwilio bennu paramedrau ymchwilio tynn er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau'r heddlu yn effeithiol ac na ddefnyddir mwy na'r hyn sydd ar gael Gall cysylltu â'r CPS yn gynnar fod yn werthfawr. I gael rhagor o wybodaeth, gweler [yr adran rheoli ymchwiliadau](#).

## Rheoli ymchwiliadau a honiadau lluosog

---

Pan gaiff yr un heddlu nifer o honiadau ar yr un adeg, gellir diystyru honiad yn weddol hawdd neu gellir rhagdybio ar gam fod rhywun arall yn gyfrifol am ymchwilio iddo.

Mae nifer o egwyddorion allweddol a fydd yn helpu heddluoedd i sicrhau eu bod yn gallu rheoli honiadau lluosog o gamymddwyn a thwyll etholiadol.

### Rheoli deunydd

Dylai egwyddorion rheoli tystiolaeth fod ar waith.

Dylid ystyried y materion ychwanegol canlynol:

- yr effaith ar y cyfrif ac ar yr awdurdod lleol
- pwerau chwilio ac atafael
- amserlenni statudol
- ystyriaethau fforensig
- systemau rheoli dogfennau.

Yn dibynnu ar faint yr ymchwiliad ac yn unol â'r arferion proffesiynol awdurdodedig ar [ymchwiliadau](#), gall heddluoedd ystyried penodi swyddog tystiolaeth os nad ef yw'r swyddog ymchwilio yn yr achos. Mae'n rhaid i system rheoli dogfennau fod ar waith er mwyn cadw cofnod o bob eitem o dystiolaeth.

## Strategaeth ymchwilio

### Rhagor o wybodaeth

#### [Strategaethau ymchwilio](#)

Mae'n rhaid cytuno ar strategaeth ymchwilio rhwng SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a'r uwch-swyddog ymchwilio. Dylid cofnodi'r cytundeb yng nghofnod polisi'r uwch-swyddog ymchwilio. Dylai'r strategaeth ymchwilio gwmpasu'r un blaenoriaethau ag unrhyw ymchwiliad troseddol.

Dylid ymdrin ag ymchwiliad i achos o gamymddwyn etholiadol yn yr un ffordd ag unrhyw ymchwiliad arall.

## Troseddau camymddwyn etholiadol

---

## Rhagor o wybodaeth

### Fframwaith cyfreithiol

Y brif ddeddfwriaeth ar gyfer troseddau etholiadol yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Fel arfer, mae'n rhaid cychwyn achos cyfreithiol ynghylch unrhyw drosedd o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl o fewn blwyddyn i'r drosedd gael ei chyflawni (mewn amgylchiadau eithriadol, gall y llys ymestyn hyn am flwyddyn arall).

Yn ogystal, mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) yn nodi'r rheolau o ran gwariant, cyllid a rhoddion ar gyfer etholiadau a refferenda.

Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar hyn o bryd i gynnwys argraffnodau ar ddeunydd etholiad electronig, megis gwefannau ac e-byst, ond mae'r Comisiwn Etholiadol yn annog ymgyrchwyr i'w cynnwys fel arfer dda.

## Argraffnodau

Mae'n rhaid ychwanegu argraffnod at ddeunydd etholiad argraffedig (e.e. taflenni, posteri neu hysbysebion) y gellir ystyried yn rhesymol mai ei fwriad yw hyrwyddo neu sicrhau ethol plaid wleidyddol, ymgeisydd neu grwpiau o ymgeiswyr. Mae argraffnodau'n dangos pwy sy'n gyfrifol am lunio a hyrwyddo'r deunydd ac yn helpu i sicrhau tryloywder ynglŷn â phwy sy'n ymgyrchu mewn etholiadau.

## Rheolau ar argraffnodau

Mae'r rheolau ar argraffnodau yn gymwys i'r canlynol:

- pleidiau gwleidyddol
- ymgeiswyr
- ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau (unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu mewn etholiadau, ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol nac ymgeiswyr).

Rhaid i'r deunydd etholiad gynnwys enw a chyfeiriad:

- Argraffydd y ddogfen.
- Hyrwyddwr y deunydd (yr hyrwyddwr yw' sawl sydd wedi achosi i'r deunydd gael ei argraffu. Os yw'r hyrwyddwr yn gweithredu ar ran grŵp neu sefydliad, rhaid iddo gynnwys enw a chyfeiriad y grŵp neu'r sefydliad. Gellir defnyddio cyfeiriad cartref neu swyddfa).
- Unrhyw un y cyhoeddir y deunydd ar ei ran (ond nid yr hyrwyddwr)
- Dylid nodi'r cyfeiriad post llawn. Nid yw rhifau blwch post yn dderbyniol.

## Sut i leoli argraffnod

### Rhagor o wybodaeth

## Enghraifft o argraffnod

- Pan fydd y deunydd wedi'i argraffu ar ddogfen un ddalen, rhaid i'r manylion perthnasol ymddangos ar wyneb y ddogfen.
- Pan fydd y deunydd wedi'i argraffu ar ddogfen â mwy nag un ddalen, rhaid i'r manylion gofynnol ymddangos naill ai ar dudalen gyntaf neu dudalen olaf y ddogfen.
- Os mai hysbyseb mewn papur newydd neu gyfnodolyn yw'r deunydd etholiad, nid os angen i'r hysbyseb gynnwys manylion yr argraffydd (ond mae'n rhaid i enw a chyfeiriad argraffydd y papur newydd neu'r cyfnodolyn ymddangos ar y dudalen gyntaf neu'r dudalen olaf).

## Gorfodi rheolau argraffnod

Mae'r rheolau argraffnod wedi'u pennu mewn dau ddarn o ddeddfwriaeth:

- [Adran 110](#), Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983  
Mae'r rheolau argraffnod lleol yn cwmpasu ymgyrchu dros **ymgeisydd/ymgeiswyr penodol sy'n sefyll mewn ardal etholiadol benodol (e.e. ward neu etholaeth)**, gan gynnwys gwneud hynny drwy ymgyrchu yn erbyn ymgeiswyr eraill.
- [Adran 143](#), PPERA  
Mae'r rheolau argraffnod cyffredinol yn cwmpasu ymgyrchu dros **un neu fwy o bleidiau gwleidyddol neu grwpiau o ymgeiswyr**, gan gynnwys gwneud hynny drwy ymgyrchu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr eraill. Caiff rheolau argraffnod PPERA eu rheoleiddio gan y Comisiwn Etholiadol. Gall y Comisiwn osod sancsiynau sifil am droseddau sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â gofynion argraffnod PPERA, heb eu hatgyfeirio at yr heddlu.

Mae Adran 126 o PPERA yn cynnwys gofynion a throseddau tebyg o ran deunydd ymgyrchu sy'n cael ei lunio a'i gyhoeddi mewn refferenda penodol.

## Rheolau argraffnod ymgeiswyr, adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

Mae'n ofynnol o dan [Adran 110](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i ddeunydd etholiad gynnwys argraffnod os gellir ystyried yn rhesymol mai **bwriad y deunydd yw hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd penodol mewn ardal etholiadol benodol**.

Mae rheolau argraffnod tebyg yn gymwys o dan y ddeddfwriaeth berthnasol ar gyfer etholiadau i Senedd Ewrop, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cynulliad Gogledd Iwerddon a rôl comisiynydd yr heddlu a throseddu.

Mae hyn yn cynnwys deunydd a all gael ei ddefnyddio at ddiben arall hefyd ac **mae'r ffaith nad yw'n enwi'r ymgeisydd yn uniongyrchol yn amherthnasol**.

Mae'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr yn gymwys i ddeunydd sy'n cael ei ddsbarthu fel rhan o ymgyrch ymgeisydd a gall hefyd gwmpasu ymgyrchwyr lleol nad ydynt yn bleidiau os byddant yn ymgyrchu dros ymgeisydd penodol mewn ward neu etholaeth benodol, gan gynnwys ymgyrchu yn erbyn ymgeiswyr eraill.

Gall y bobl ganlynol gyflawni troseddau o dan yr adran hon:

- hyrwyddwr y deunydd
- unrhyw unigolyn arall sy'n cyhoeddi'r deunydd
- argraffydd y ddogfen.

Yn hytrach na bod yn euog o drosedd o dan yr adran hon, byddai ymgeisydd neu ei asiant etholiad yn euog o arfer anghyfreithlon.

Bydd amddiffyniad ar gael os gall yr unigolyn a gyhuddir brofi:

- bod y tramgwydd yn deillio o amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth,
- ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol, ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy, er mwyn sicrhau na fyddai'r tramgwydd yn codi (a/neu ei fod wedi ei unioni cyn gynted â phosibl).

## **Rheolau argraffnod pleidiau (PPERA)**

Mae rheolau argraffnod pleidiau yn gymwys i bleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr cyffredinol nad ydynt yn bleidiau sy'n ymgyrchu dros neu yn erbyn un blaid gwleidyddol, grŵp o ymgeiswyr, polisi, mater neu fath penodol o ymgeisydd.

Mae'n ofynnol o dan Adran 143 o PPERA 2000 i argraffnodau gael eu cynnwys ar [ddeunydd etholiad argraffedig](#) os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y deunydd yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu gategoriâu o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisiau neu faterion penodol, a'i fod ar gael i'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd.

Cyfeirir at y gofynion hyn fel rheolau argraffnod pleidiau. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i bleidiau gwleidyddol ac [ymgyrchwyr cyffredinol nad ydynt yn bleidiau](#).

Gall y Comisiwn Etholiadol osod sancsiynau sifil am droseddau sy'n deillio o fethu â chydymffurfio â gofynion argraffnod PPERA, heb eu hatgyfeirio at yr heddlu. Ceir rhagor o wybodaeth am y ffordd y caiff rheolau argraffnod eu gorfodi drwy fynd i [wefan y Comisiynydd](#).

Noder: mewn perthynas â Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a PPERA 2000:

- mae 'argraffu' yn golygu argraffu drwy unrhyw gyfrwng a dylid dehongli 'argraffydd' yn unol â hynny

- mae 'yr hyrwyddwr' mewn perthynas ag unrhyw ddeunydd y mae'r adran hon yn gymwys iddo, yn golygu peri i'r deunydd gael ei gyhoeddi
- mae 'cyhoeddi' yn golygu rhyddhau i'r cyhoedd yn gyffredinol, neu unrhyw ran o'r cyhoedd, ar unrhyw ffurf a thrwy unrhyw gyfrwng.

## Gwahaniaethu rhwng rheolau argraffnod ymgeiswyr a phleidiau

### Rhagor o wybodaeth

#### Rheolau argraffnod cyffredinol

Mae'r rheolau argraffnod o dan adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn cwmpasu ymgyrchu dros ymgeisydd penodol sy'n sefyll mewn ardal etholiadol benodol, gan gynnwys gwneud hynny drwy ymgyrchu yn erbyn ymgeiswyr eraill.

Mae rheolau argraffnod pleidiau yn cwmpasu ymgyrchu dros un neu fwy o bleidiau gwleidyddol neu grwpiau o ymgeiswyr, gan gynnwys gwneud hynny drwy ymgyrchu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr eraill.

**Os bydd unrhyw swyddog yn ansicr a yw deunydd etholiad yn dod o dan reolau argraffnod ymgeiswyr neu bleidiau, dylai gysylltu â phwynt cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau. Os yw'r honiad yn ymwneud â throedd argraffnod plaid, dylai pwynt cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau gyfeirio'r mater at [Dan Adamson neu Richard Jordan yn y Comisiwn Etholiadol](#).**

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am y rheolau ar gyfer [pleidiau gwleidyddol](#), [ymgyrchwyr cyffredinol](#) nad ydynt yn [bleidiau](#) a rôl y [Comisiwn fel rheoleiddiwr cyllid gwleidyddol](#).

## Ymchwilio i honiadau ynghylch argraffnod

Os rhoddir gwybod i'r heddlu am drosedd argraffnod, dylid cymryd y camau canlynol:

- cael gafael ar y deunydd gwreiddiol a'i wirio er mwyn cadarnhau a yw'r rheolau argraffnod lleol wedi cael eu torri
- cofnodi'r honiad er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol a rhoi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol am achosion o gamymddwyn etholiadol honedig
- cadarnhau a yw hyn yn drosedd a gyflawnwyd o'r blaen gan ymgeisydd neu ymgyrchydd lleol penodol nad yw'n blaid
- cadarnhau a oes honiadau eraill yn cael eu gwneud ynghylch yr ymgeisydd neu'r ymgyrchydd lleol nad yw'n blaid hwn
- os cyflawnwyd y drosedd o'r blaen neu os yw'n gysylltiedig â throedd arall, ystyriwch a ddylid ymchwilio iddi a chyflwyno adroddiad llawn i'r CPS.

Sylwer bod y rhan fwyaf o achosion o dorri rheolau argraffnod lleol yn deillio o'r ffaith nad yw pobl yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth yn hytrach nag unrhyw fwriad i osgoi cael eu hadnabod.

## **Ymateb yr heddlu i honiad o dorri rheolau argraffnod**

Os yw'n ymddangos bod yr achos o dorri rheolau wedi deillio o anwybodaeth ac nad oedd unrhyw fwriad i gyflawni rhagor o droseddau, yn dibynnu ar yr heddlu, gall fod yn bosibl ymdrin â'r honiad drwy lythyr cyngor at yr ymgeisydd neu'r ymgyrchydd lleol nad yw'n blaid. Dylid ceisio cyngor gan y CPS os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch sut i ymdrin â honiad.

## **Llythyr cyngor**

Dylai'r llythyr cyngor amlinellu'r canlynol:

- bod yr heddlu yn gyfrifol am sicrhau uniondeb etholiadol
- amgylchiadau'r honiad
- deddfwriaeth berthnasol
- bod y ddogfennaeth wedi cael ei harchwilio
- atebolrwydd yr ymgeisydd (neu'r argraffydd neu'r hyrwyddwr)
- gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r canllawiau
- ni chaiff camau pellach eu cymryd ar yr achlysur hwn
- os daw toriad pellach i'r amlwg, gellid ystyried yr honiad hwn fel rheswm ategol dros erlyn
- gall y drosedd arwain at uchafswm cosb ariannol o ddirwy anghyfyngedig

Dylid ystyried anfon llythyr cyngor â geiriad tebyg at unrhyw argraffydd neu hyrwyddwr a nodwyd, gan roi cyngor addas. Gweler yr [enghraifft o dempled llythyr](#).

Gall fod i drosedd o dan adran 110 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 oblygiadau o ran cyflwyno treuliau sy'n ymwneud ag ymgyrchu mewn etholiad, a gwmpesir yn adrannau 75 i 85 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

## **Datganiad ffeithiau ffug mewn perthynas ag ymgeisydd**

Mae'n anghyfreithlon i rywun wneud neu gyhoeddi datganiad ffeithiau ffug mewn perthynas â chymeriad neu ymddygiad personol (yn hytrach na chymeriad neu ymddygiad gwleidyddol) ymgeisydd, cyn neu yn ystod etholiad, at ddiben effeithio ar ethol yr ymgeisydd yn yr etholiad oni bai y gall ddangos bod ganddo seiliau rhesymol dros gredu, a'i fod yn credu, bod y datganiad yn wir – adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Caiff geiriau'r datganiad eu dehongli yn unol â'u hystyr gwirioneddol a gwir ac nid o reidrwydd yn unol â'u hystyr llythrennol.

Mae hefyd yn anghyfreithlon o dan adran 106(5) i unrhyw un, cyn neu yn ystod etholiad, gyhoeddi'n fwiadol ddatganiad ffug bod ymgeisydd wedi tynnu'n ôl o'r etholiad at ddiben hyrwyddo neu sicrhau ethol ymgeisydd arall.

Noder: nid yw beirniadu gweithredoedd cyhoeddus, ni waeth pa mor eithafol neu wrthnysig ydynt, yn torri adran 106 (Bwrdeistref Sunderland (1896) 5 O'M ac H 53) nac ychwaith feirniadu gyrfa neu ymddygiad gwleidyddol person (Rhanbarth Cockermouth Sir Cumberland (1901) 5 O'M ac H 155).

Yn ystod cyfnod yr etholiad, yn aml ceir sensitifrwydd cynyddol ynghylch sylwadau a wneir gan ymgeiswyr a'u cefnogwyr. Gellir ystyried y sylwadau hyn yn gelwyddau ac yn anwireddau sydd â'r nod o wella cyfle ymgeisydd i gael mantais naill ai trwy ennill ffafriaeth yr etholwyr neu drwy ddwyn anfri ar wrthwynebydd. Gellir gwneud y sylwadau neu'r datganiadau hyn ar ffurfiau amrywiol, er enghraifft deunydd etholiad, y cyfryngau neu gynulliadau gwleidyddol, ac maent yn tueddu i ymwneud â'r canlynol:

- addewidion yr ymgeisydd, os caiff ei ethol
- polisïau gwrthbleidiau neu gyd-ymgeiswyr
- uniondeb neu gymeriad personol cyd-ymgeiswyr.

Gall **unrhyw** un sy'n gwneud neu'n cyhoeddi'r datganiad ffug fod yn euog o gyflawni'r drosedd. Fodd bynnag, gwneir honiadau yn erbyn cyd-ymgeiswyr neu eu hasiantiaid fel arfer.

### **Ymchwilio i honiad o ddatganiad ffeithiau ffug mewn perthynas ag ymgeisydd**

Yn yr un modd â phob honiad a wneir am gamymddwyn etholiadol, bydd ymateb cyflym o fudd i'r sefydliad. Pe bai rhywun yn cysylltu â swyddog ynghylch datganiad ffug mewn perthynas ag ymgeisydd, dylai'r swyddog sicrhau bod y datganiad:

- wedi'i wneud cyn neu yn ystod etholiad
- wedi'i wneud at ddiben effeithio ar ethol unrhyw ymgeisydd yn yr etholiad
- yn ymwneud â chymeriad neu ymddygiad **personol** ymgeisydd yn hytrach na bwriadau gwleidyddol yr ymgeisydd neu ei fethiant i wireddu addewidion.

Mae enghreifftiau o **honiadau blaenorol** a ystyriwyd o dan adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ar gael er gwybodaeth. Bydd angen i'r cyd-destun penodol gael ei ystyried ym mhob achos.

Mae honiadau o dan **Adran 106** o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn tueddu i fod yn honiadau disylwedd gan drydydd parti, felly os na ddarperir datganiad gan dyst i gadarnhau'r honiad, ni ddylid cynnal unrhyw ymchwiliad.

Pan wneir honiad ffug sy'n ymwneud â throddu yn hytrach na moesoldeb neu ymleiddio, bydd yr achos yn erbyn y trydydd parti yn llawer cryfach.



Dylai swyddogion gofio y gall deddfwriaeth yn ymwneud ag aflonyddu a'r drefn gyhoeddus gynnig dewis amgen i adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Wrth ystyried achos honedig o dorri adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, bydd y llysoedd yn ystyried yr hawl i ryddid mynegiant o dan Erthygl 10 sy'n perthyn i'r sawl sy'n gwneud neu'n cyhoeddi'r datganiad, wedi'i chydbwysu â hawl yr ymgeisydd i amddiffyn ei enw da o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch tuag at fywyd preifat a bywyd teuluol). Nid yw'r hawl i ryddid mynegiant yn berthnasol i ddatganiadau a wnaed yn anonest (gweler R (ar gais Woolas) yn erbyn Llys Etholiad Seneddol (2010) EWHC 3169 (Gweinyddu)).

## Ymateb yr heddlu

Mae'n amddiffyniad i rywun sy'n gwneud datganiad ffug o'r fath ddangos bod ganddo seiliau rhesymol dros gredu, a'i fod yn credu, fod y datganiad yn wir.

Mae gan achwynwyr sy'n credu eu bod wedi cael eu hathrodi neu eu henllibio yr hawl i rwymedi sifil mewn perthynas ag unrhyw honiad, felly dylid eu cynghori i geisio cyngor cyfreithiol. Dylai unrhyw gais i gael gafael ar ddeunydd ymchwilio'r heddlu gael ei gyflwyno i adran gwasanaethau cyfreithiol yr heddlu.

Os oes gan swyddogion, ar ôl ystyried yr uchod, unrhyw ymholiadau am honiad o dan yr adran hon, dylent geisio cyngor gan gyfreithiwr penodedig y CPS.

## Gwybodaeth gofrestru ffug

Mae'n drosedd rhoi gwybodaeth anwir er mwyn cofrestru i bleidleisio, neu mewn cysylltiad â chais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy ([adran 13D\(1A\)](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983). Mae hyn yn cynnwys darparu llofnod ffug.

Dylai swyddogion gadw mewn cof mai ymgais i gofrestru'n anwir ar y gofrestr etholwyr yw'r prif gam yn aml tuag at sefydlu hunaniaeth dwyllodrus er mwyn cyflawni twyll megis twyll morgais, twyll bancio neu dwyll ar y rhyngrwyd.

Nid yw'r drosedd wedi'i chyflawni pan nad oedd y person a gyhuddir yn gwybod, ac nad oedd ganddo reswm dros amau, fod y wybodaeth yn anwir.

Mae dau reswm dros greu cofnod anwir ar y gofrestr etholwyr. Maent yn ymwneud â chyflawni twyll:

- at ddibenion ariannol yn unig, sef cael cofnod ar y gofrestr etholwyr fel cam cyntaf tuag at gael statws credyd
- mewn perthynas ag etholiad.

## Cymhwysedd i bleidleisio

**Ni all neb bleidleisio nes ei fod yn 18 oed.**

Gall person gofrestru i bleidleisio os yw'n 16 oed neu'n hŷn ac yn ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'r Undeb Ewropeaidd sy'n preswyllo yn y DU. Dim ond os bydd yn 18 oed o fewn cylch oes y gofrestr etholwyr y gall y fath berson sy'n 16 neu'n 17 oed gofrestru.

Dim ond mewn etholiadau Ewrop ac etholiadau lleol yn y DU y gall dinasyddion o'r Undeb Ewropeaidd (nad ydynt yn ddinasyddion o'r Gymanwlad na Gweriniaeth Iwerddon) bleidleisio.

Cyn 2014, gallai unrhyw unigolyn gael ei roi ar y gofrestr drwy ddau ddull:

- Canfas blynyddol lle byddai un aelod o'r cartref yn llofnodi i gytuno bod y bobl a oedd eisoes ar y gofrestr yn dal i fod yn gymwys ac yn ychwanegu aelodau newydd o'r cartref at y gofrestr. Roedd hyn yn cynnwys aelodau iau'r cartref wrth iddynt gyrraedd yr oedran priodol.
- Cwblhau ffurflen gais unigol, a oedd yn gofyn am lofnod yr unigolyn.

Ers mis Mehefin 2014, bu'n rhaid i bob cais i ymuno â'r gofrestr fod ar sail unigol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu eu rhif yswiriant gwladol a'u dyddiad geni at ddibenion diogelwch ychwanegol. Ar y cyd â'r gofyniad hwn, cyflwynwyd y cyfle i gyflwyno cais o'r fath yn electronig, heb fod angen llofnod.

### **Ymchwilio i wybodaeth gofrestru ffug**

Pan amheuir bod cofnod anwir wedi cael ei greu ar y gofrestr etholwyr, mae'n hanfodol ymateb yn brydlon. Dylid dilysu bodolaeth yr unigolyn cyn cyflwyno unrhyw eitemau ar gyfer archwiliad ffrensig, a dylid cadarnhau a gydsyniodd yr etholwr i'r cais. Dylid hefyd gadarnhau dilysrwydd y llofnod ar y ffurflen.

Yr awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i wneud ymholiadau cychwynnol i honiadau o gyflwyno gwybodaeth gofrestru ffug. Gellir ystyried hapsamplu ffurflenni amheus pan fo adnoddau'n brin. Gall y dacteg hon gyfyngu ar yr effaith ar adnoddau'r heddlu sydd eu hangen yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, ar ôl cadarnhau bod pob sampl neu rai o'r samplau a ddewiswyd ar hap yn dwyllodrus, yna bydd yn rhaid gweld pob papur pleidleisio arall yr effeithir arno. Y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol sy'n gwneud penderfyniadau ar y strategaeth samplu mewn cydweithrediad ag SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau.

Ar ôl cadarnhau bod ceisiadau'n dwyllodrus, dylid ystyried yr effaith bosibl ar etholiadau sydd ar y gorwel. Os darganfyddir nad yw'r etholwr yn bodoli, dylid dileu unrhyw geisiadau o dan yr enw hwnnw o'r gofrestr. Os na fydd hyn yn bosibl cyn yr etholiad, yna bydd yn rhaid cael cynlluniau wrth gefn i atal y papurau pleidleisio rhag cael eu defnyddio. Os canfyddir bod yr etholwr yn ddilys, ond bod y cais am bleidlais bost/pleidlais drwy ddirprwy yn anwir, yna rhaid cyfeirio'r mater at y swyddog etholiadau, a fydd yn unioni'r sefyllfa yn unol â darpariaethau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae angen adolygu sefyllfa'r rhai a ddrwgdybir sy'n hysbys/a nodwyd mewn cysylltiad â'r drosedd, a hynny'n barhaus wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo, ac mae hyn yn arbennig o sensitif yn y cyfnod sy'n arwain at unrhyw etholiad.

Dylid ystyried y materion canlynol hefyd:

- pa mor gryf yw'r dystiolaeth sydd ar gael
- yr effaith bosibl ar ganlyniad yr etholiad
- materion sefydliadol a materion sy'n ymwneud ag enw da, a hyder yn y broses ddemocrataidd.

### **Casglu tystiolaeth (gwybodaeth gofrestru ffug)**

Ar ôl i'r ffurflenni yr effeithir arnynt gael eu nodi, dylid sefydlu strategaeth fforensig i benderfynu a ddylid cyflwyno sampl gyflawn neu gyfyngedig ar gyfer archwiliad fforensig.

Mae gwybodaeth ac arbenigedd y Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol, neu unigolyn cyfatebol, wrth gynorthwyo'r heddlu yn hanfodol er mwyn helpu'r SPOC i lunio strategaeth fforensig.

Os oedd y cais gwreiddiol i bleidleisio ar gyfer pleidleisiwr ffug, dylid cael gafael ar y cais hwn lle y bo'n bosibl a'i ystyried fel rhan o'r strategaeth fforensig. Mewn amgylchiadau cyffredinol, gall y swyddfa etholiadau ddarparu'r cais gwreiddiol heb fod angen cael gorchymyn llys.

Bydd y cais gwreiddiol i bleidleisio yn darparu cyfleoedd tystiolaethol.

### **Cais mewn llawysgrifen neu gais a lofnodwyd**

Bydd cais mewn llawysgrifen neu gais a lofnodwyd yn cynnig cyfleoedd tystiolaethol drwy'r llawysgrifen. Gan y bydd y math hwn o gais wedi cael ei drafod â llaw, gall tystiolaeth olion bysedd fod ar gael. Mae angen bod yn ofalus wrth gyflwyno ffurflenni o'r fath ar gyfer archwiliad fforensig gan y gall y broses o drin y ddogfennaeth yn gemegol ddinistrio ysgrifen ar y ddogfen. Dylid cael gafael ar lungopi o ansawdd da o'r ddogfen cyn ei chyflwyno a dylid archwilio'r llawysgrifen fel y broses gyntaf a gaiff ei chynnal os yw'n bosibl.

### **Dogfen argraffedig**

Bydd dogfen argraffedig yn dal i gynnig cyfleoedd drwy olion bysedd. Os daw'r ddogfen o ffynhonnell electronig, megis gwefan y Comisiwn Etholiadol, gall gynnwys tag electronig neu fath o ddynodydd y gellir ei ddefnyddio i adnabod cyfeiriad IP a all arwain at y lleoliad lle cafodd y ffurflen ei chreu.

### **Cais electronig**

Bydd cais a gyflwynwyd yn electronig yn cynnig cyfle i adnabod ffynhonnell y ddogfen. Caiff y cyfeiriad IP ei gofnodi a'i anfon gyda'r manylion cofrestru angenrheidiol at y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn yr awdurdod lleol perthnasol at ddibenion storio diogel. Caiff yr amser pan gafodd y ffurflen ei lawrlwytho ei ddangos fel amser lleol y DU. Fodd bynnag, yn dibynnu ar y ffynhonnell, bydd yn rhaid asesu unrhyw gyfleoedd pellach i gasglu tystiolaeth.

### **Ffynonellau tystiolaeth eilaidd**

Gall y broses wreiddiol o gyflwyno'r ffurflen gais ddarparu ffynonellau tystiolaeth eilaidd:

- bydd ffurflen drwy'r post yn cynnig cyfleoedd i gael olion bysedd a DNA o'r amlen a'r stamp
- gall ffurflen a gyflwynwyd â llaw gynnig cyfle i gael tystiolaeth CCTV neu Photofit.

### **Cais anwir am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy**

Ar ôl cyflwyno pleidleisio drwy'r bost ar gais yn 2000 a chyn i [Ddeddf Gweinyddiaeth Etholiadol 2006](#) a deddfwriaeth arall gyflwyno gwiriadau trylwyr, defnyddiwyd ceisiadau am bleidleisiau post i gyflawni twyll etholiadol ar raddfa fawr gyda'r nod o effeithio ar ganlyniad etholiad.

Mae Adran 62A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn nodi troseddau sy'n ymwneud â cheisiadau i gofrestru i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy.

### **Cymhwysedd i gael pleidlais bost**

**Gall unrhyw un sydd eisoes yn etholwr cofrestredig wneud cais am bleidlais bost.**

### **Cymhwysedd i gael pleidlais drwy ddirprwy**

**Os na all etholwr cofrestredig gyrraedd gorsaf bleidleisio, gall wneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy.**

Mae'n rhaid i'r etholwr benodi rhywun y mae'n ymddiried ynddo i bleidleisio ar ei ran.

Ni chaiff person weithredu fel dirprwy i fwy na dau etholwr cofrestredig nad ydynt yn aelodau agos o'r teulu. Nid oes terfyn ar nifer yr aelodau agos o'r teulu y gall rhywun weithredu fel dirprwy ar eu rhan.

Rhaid i gais am bleidlais barhaol drwy ddirprwy gael ei ardystio gan rywun sydd â'r awdurdod i dystio na all yr etholwr bleidleisio'n bersonol. Rhaid i gais i bleidleisio drwy ddirprwy ar gyfer achlysur unigol ddatgan pam y mae angen y dirprwy, ond nid oes angen iddo gael ei ardystio. Rhaid anfon cadarnhad ysgrifenedig o'r trefniant i bleidleisio drwy ddirprwy at yr etholwr yn ei gyfeiriad cofrestredig. Mae hwn yn fesur gwrth-dwyll pwysig.

**I wneud cais i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy, rhaid i etholwr lofnodi'r ffurflen gais.**

## **Ymchwilio i gais anwir am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy**

Mae'n drosedd gwneud cais anwir i bleidleisio drwy'r post neu drwy ddirprwy gyda'r bwriad o gymryd pleidlais rhywun arall neu gael pleidlais neu arian neu eiddo nad oes gan unigolyn yr hawl iddynt.

Mae'n drosedd gwneud y canlynol:

- gwneud cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy fel rhywun arall (boed yn rhywun byw neu farw neu'n rhywun ffug) neu fel arall wneud datganiad ffug mewn cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy neu mewn cysylltiad â chais o'r fath.
- ysgogi Swyddog Cofrestru Etholiadol i anfon gohebiaeth yn ymwneud â phleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy i gyfeiriad nad yw'r pleidleisiwr wedi cytuno arno
- achosi i ohebiaeth o'r fath beidio â chael ei dosbarthu i'r unigolyn a fwriadwyd.

Mae rhywun sy'n cyflawni'r drosedd hon neu sy'n helpu, yn annog neu'n cynghori unigolyn i gyflawni trosedd o'r fath neu sy'n peri i drosedd o'r fath gael ei chyflawni, yn euog o arfer lwgr.

Er bod peth gorgyffwrdd rhwng adran 62A ac adran 13D mewn cysylltiad â darparu gwybodaeth anwir mewn cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy, adran 62A yw'r drosedd fwyaf difrifol ac mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn euog o droseddu'n fwriadol fel y nodwyd uchod.

Gall y risg o gamymddwyn etholiadol fod yn fwy o dan yr amgylchiadau canlynol:

- os oes mwy o gyfle i ddylanwadu ar ganlyniad etholiad neu refferendwm, er enghraifft mae angen llai o bleidleisiau i ennill sedd mewn etholiad llywodraeth leol o gymharu ag etholiad Senedd y DU
- os yw'n debygol o fod yn etholiad agos
- os oes cymuned â sgiliau iaith neu lythrennedd cyfyngedig a all fod yn fwy agored i gael ei thwylo neu'n llai tebygol o sylweddoli bod pleidleisiau wedi cael eu dwyn.

## **Casglu tystiolaeth (cais anwir am bleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy)**

I wneud cais am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy, mae'n rhaid i'r unigolyn fod ar y gofrestr etholwyr eisoes. Mae'n rhaid gwneud ymholiadau yn gyntaf er mwyn cadarnhau sut y cafodd y broses gofrestru gychwynnol ei chynnal, gan y gall hyn ddarparu rhagor o ffynonellau tystiolaethol a nodi diben y cais.

Dylai'r rheswm pam y mae unigolyn wedi gwneud cais i gofrestru i bleidleisio bob amser fod yn rhan o'r broses o asesu a fu ymgais i gyflawni twyll.

Mae dau reswm dros geisio creu cofnod anwir ar y gofrestr etholwyr. Maent yn ymwneud â chyflawni twyll:

- at ddibenion nad ydynt yn etholiadol megis twyll budd-daliadau, dwyn hunaniaeth, dibenion mewnfudo anghyfreithlon neu dwyll ariannol drwy gael cofnod ar y gofrestr fel cam cyntaf tuag at gael statws credyd
- er mwyn sicrhau canlyniad penodol mewn etholiad.

Gall arwyddion cyntaf afreoleidd-dra o ran cofrestru, pleidleisiau post neu bleidleisiau drwy ddirprwy gynnwys:

- llawysgrifen debyg ar ffurflenni cais
- ffurflenni niferus o'r un cyfeiriad
- ffurflenni niferus o'r un cyfeiriad IP
- cynnydd sydyn anesboniadwy o ran nifer y ceisiadau mewn ardal benodol
- ffynonellau cudd-wybodaeth.

## Ymateb yr heddlu

Ar ôl cadarnhau bod y ceisiadau am bleidlais bost neu bleidlais drwy ddirprwy yn dwyllodrus, dylid ystyried yr effaith y gall hyn ei chael ar etholiadau sydd ar y gorwel.

Os darganfyddir nad yw'r etholwr yn bodoli, dylid dileu'r enw hwnnw o'r gofrestr. Os na fydd hyn yn bosibl cyn yr etholiad, bydd angen cynlluniau wrth gefn i atal y papurau pleidleisio rhag cael eu defnyddio.

Os canfyddir bod yr etholwr yn ddilys, ond bod y cais am bleidlais bost/pleidlais drwy ddirprwy yn anwir, yna rhaid cyfeirio'r mater at y swyddog etholiadau, a fydd yn unioni'r sefyllfa yn unol â darpariaethau Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

## Cambersonadu

Mae [Adran 60](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn disgrifio cambersonadu fel sefyllfa pan fydd unigolyn yn pleidleisio fel rhywun arall, naill ai'n bersonol yn yr orsaf bleidleisio neu drwy'r post neu fel dirprwy.

Fel arall, mae'n disgrifio unigolyn sy'n pleidleisio'n bersonol neu drwy'r post neu fel dirprwy ar ran rhywun y mae'n gwybod ei fod yn farw neu'n ffug neu y mae ganddo seiliau rhesymol dros gredu hynny, neu unigolyn sy'n gwybod nad yw ei benodiad fel dirprwy mewn grym mwyach neu sydd â seiliau rhesymol dros gredu hynny.

Mae'r drosedd yn gymwys p'un a yw'r sawl a gaiff ei gambersonadu yn fyw, yn farw neu'n ffug.

Mae rhywun sy'n cyflawni trosedd cambersonadu neu sy'n helpu, yn annog neu'n cynghori unigolyn i gyflawni trosedd o'r fath neu sy'n peri i drosedd o'r fath gael ei chyflawni, yn euog o arfer lwgr.

Os daw'r bwriad i gambersonadu i sylw'r heddlu cyn iddo ddigwydd, dylid ystyried tactegau tarfu er mwyn atal y drosedd rhag digwydd.

## **Ymchwilio i gambersonadu**

Darperir rhan o'r gofrestr etholwyr i bob gorsaf bleidleisio yn dangos pwy sy'n gymwys i bleidleisio yno. Pan gyflwynir papur pleidleisio, bydd y swyddog llywyddu neu'r clerwr pleidleisio yn rhoi marc ar y gofrestr yn erbyn enw'r etholwr sy'n cyrraedd i bleidleisio. Yr arwydd cyntaf o drosedd cambersonadu fel arfer yw pan fydd unigolyn yn cyrraedd i bleidleisio ac mae marc ar y gofrestr yn erbyn ei enw eisoes i ddangos bod papur pleidleisio wedi cael ei gyflwyno.

Mae'n rhaid i unrhyw asesiad o honiad o gambersonadu gynnwys y risg o wall dynol gan y swyddog llywyddu neu'r clerwr drwy roi'r marc yn erbyn y pleidleisiwr anghywir ar y gofrestr a farciwyd.

Os caiff tactegau eu mabwysiadu sy'n ymwneud â gosod swyddogion yr heddlu mewn gorsafoedd pleidleisio, dylid eu briffio'n llawn ymlaen llaw ynghylch diben eu rôl. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran [cynnal trefn ac atal dylanwad gormodol y tu allan i orsafoedd pleidleisio](#). Dylai sesiynau briffio nodi na chaniateir iddynt ymwneud ag atal y bleidlais rhag cael ei bwrw nac atal y swyddog llywyddu rhag cyflawni ei ddyletswyddau. Os daw rhywun a ddrwgdybir i'r orsaf bleidleisio, rhaid iddo gael caniatâd i bleidleisio cyn i'r swyddog ymyrryd.

## **Datganiadau tystion**

Yn achos pob honiad o gambersonadu, bydd yn rhaid cael datganiadau tystion gan y swyddog llywyddu a'r clerwr pleidleisio yn yr orsaf bleidleisio.

Cyn unrhyw etholiad, rhaid ystyried defnyddio datganiadau templed, y gellir eu cynnwys yn y pecynnau a gyflwynir i bob swyddog llywyddu. Gellid cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio datganiadau o'r fath yn yr hyfforddiant a ddarperir i swyddogion llywyddu a chlercod pleidleisio.

## **Casglu tystiolaeth (cambersonadu)**

Bydd papur pleidleisio twyllodrus hefyd yn cynnig cyfleoedd ffrensig, y dylid eu hystyried cyn gynted ag y canfyddir bod y papur pleidleisio yn destun cambersonadu.

Mae'r gofrestr a farciwyd y mae'r swyddog llywyddu yn ei chwblhau er mwyn cofnodi pwy sydd wedi cael papur pleidleisio hefyd yn ddarostyngedig i bolisi dinistrio o dan y rheoliadau (rheol 57(1), Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (Rheolau Etholiad Seneddol)), a bydd yn rhaid cael gorchymyn llys er mwyn cyflwyno a chadw hon fel tystiolaeth. Dylid ceisio cyngor gan wasanaethau cyfreithiol yr heddlu, SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau a'r Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol, neu unigolyn cyfatebol, ynghylch dyddiadau a pholisïau dinistrio.

## **Cambersonadu drwy bleidlais drwy ddirprwy neu bleidlais bost**

Pan welir cysylltiad rhwng honiad o gambersonadu a chais anwir am bleidlais bost/pleidlais drwy ddirprwy, gall y ffurflenni cais gwreiddiol gynnog rhai cyfleoedd tystiolaethol, a dylid rhoi trefniadau ar waith i'w hatafaelu a'u cadw.

Ar gyfer pleidleisio drwy'r post, bydd yn rhaid gwirio datganiad y bleidlais bost (a ddylai fod wedi cael ei lofnodi gan y pleidleisiwr a dangos ei ddyddiad geni) yn erbyn y manylion a gyflwynwyd wrth wneud y cais i bleidleisio drwy'r post. Wrth ymchwilio i bleidleisio drwy'r post, dylai swyddogion ystyried troseddau sy'n ymwneud â datganiadau ffug o dan adrannau 62A(1) a 62A(2) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

## **Datganiad ffug ar bapur enwebu**

### **Cymhwysiad ar gyfer enwebiad**

Mae'n drosedd rhoi manylion ffug bwriadol ar bapur enwebu. Mae hyn yn cynnwys unrhyw un o'r llofnodion. Er mwyn i ymgeisydd sefyll etholiad, mae'n ofynnol cwblhau papur enwebu y mae'n rhaid iddo nodi pa rai o'r meini prawf gofynnol a fodlonir.

Er mwyn cael caniatâd i sefyll am swydd mewn etholiad lleol, rhaid i'r ymgeisydd fod:

- yn 18 oed ar ddiwrnod ei enwebiad
- ddinesydd Prydeinig neu'n ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon, neu'n ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o un o aelod-wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ogystal, rhaid iddo fodloni o leiaf un o'r pedwar amod cymhwyso canlynol:

- wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol y mae'n dymuno sefyll fel ymgeisydd ynddi o ddiwrnod ei enwebiad ymlaen
- wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn ardal yr awdurdod lleol fel perchennog neu denant yn ystod y 12 mis cyfan cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad
- wedi gweithio yn ardal yr awdurdod lleol fel ei brif fan gwaith neu ei unig fan gwaith yn ystod y 12 mis cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad
- wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod y 12 mis cyfan cyn y diwrnod y caiff ei enwebu a diwrnod yr etholiad. Ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, mae'n rhaid bod cysylltiad rhwng yr ymgeisydd a'r ardal y mae'n dymuno ei chynrychioli. Dylai'r ymgeisydd breswyllo, gweithio neu feddiannu tir neu safle yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae troseddau hefyd yn gymwys i fathau eraill o etholiad. Noder: bydd y meini prawf yn amrywio yn dibynnu ar y math o etholiad, e.e. etholiadau Senedd y DU.

Lluniodd y Comisiwn ganllawiau i ymgeiswyr a oedd yn bwriadu sefyll mewn etholiadau ledled y DU ym mis Mai 2016. Gellir cael gafaél arnynt ar [wefan y Comisiwn](#).



Mae'r meini prawf cymhwysedd ac anghymwysiad i ddarpar ymgeiswyr wedi'u nodi yn Rhan 1 o'r canllawiau ar gyfer pob math o etholiad. Er enghraifft, mae'r cyngor i ymgeiswyr sy'n sefyll etholiad ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn tynnu sylw at yr anghymwysiad yn:

1.4 Rydych wedi cael eich collfarnu am drosedd garcharadwy yn y gorffennol. Mae'r anghymwysiad hwn yn gymwys hyd yn oed os na chawsoch eich carcharu mewn gwirionedd am y drosedd honno, neu os yw'r gollfarn wedi darfod.

Ceir rhagor o wybodaeth ar [wefan](#) y Comisiwn Etholiadol.

Mae'n ofynnol cwblhau papur enwebu y mae'n rhaid iddo nodi pa rai o'r meini prawf uchod a fodlonir. Mae hefyd yn ofynnol cael cefnogaeth 10 etholwr (un cynigydd, un eilydd ac wyth cydsyniwr sy'n llofnodi i ddweud eu bod yn cefnogi enwebiad yr ymgeisydd). Mae'n rhaid i bob un o'r 10 lofnodi'r papur enwebu a bod ar y gofrestr etholwyr ar gyfer ardal yr etholiad. Gall nifer y cydsynwyr amrywio ar gyfer mathau gwahanol o etholiad. Mae'r papur enwebu hefyd yn rhoi manylion enw, dyddiad geni a chyfeiriad yr ymgeisydd, yn ogystal â disgrifiad gwleidyddol (os oes un).

### **Manylion ffug ar bapur enwebu**

O dan adran 65A(1) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, mae unigolyn yn euog o arfer lwgr os bydd yn peri i un o'r canlynol gael ei gynnwys mewn dogfen a gyflwynir neu a ddarperir fel arall i swyddog canlyniadau i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r etholiad, neu'n caniatáu i hynny ddigwydd:

- datganiad ffug bwriadol ynghylch enw neu gyfeiriad cartref ymgeisydd yn yr etholiad
- yn achos etholiad seneddol, datganiad ffug bwriadol o dan reol 6(5)(b) o Atodlen 1 i'r Ddeddf hon
- unrhyw beth y dywedir ei fod yn llofnod etholwr sy'n cynnig, yn eilio neu'n cefnogi enwebiad ymgeisydd o'r fath ond y mae'n gwybod
  - na chafodd ei ysgrifennu gan yr etholwr y dywedir iddo gael ei ysgrifennu ganddo, neu
  - os caiff ei ysgrifennu gan yr etholwr hwnnw, na chafodd ei ysgrifennu ganddo at ddiben dynodi ei fod yn cynnig, yn eilio neu'n cefnogi enwebiad yr ymgeisydd hwnnw
- tystysgrif yn awdurdodi'r ymgeisydd i ddefnyddio disgrifiad os yw'n gwybod bod yr ymgeisydd yn sefyll etholiad mewn etholaeth arall lle caiff y bleidlais ei chynnal ar yr un diwrnod â'r bleidlais yn yr etholiad y mae'r dystysgrif yn ymwneud ag ef.

O dan adran 65A(1A), mae unigolyn yn euog o arfer lwgr os bydd, yn achos unrhyw etholiad perthnasol, yn gwneud un o'r canlynol mewn unrhyw ddogfen lle y mae'n cydsynio i'w enwebiad fel ymgeisydd:

- datganiad ynghylch ei ddyddiad geni
- datganiad ynghylch ei gymhwysiad i gael ei ethol yn yr etholiad hwnnw
- datganiad nad yw'n ymgeisydd mewn etholiad ar gyfer unrhyw etholaeth arall lle caiff y bleidlais ei chynnal ar yr un diwrnod â'r bleidlais yn yr etholiad y mae'r cydsyniad yn ymwneud ag ef

y mae'n gwybod bod unrhyw un o'r manylion ynddo yn anwir.

Llofnodion ffug gan gydsynwyr a chyfeiriadau ffug gan ymgeiswyr yw'r ddau fath mwyaf cyffredin o gŵyn a thoriad sy'n gysylltiedig â'r adrannau hyn.

### **Ymchwilio i ddatganiad anwir ar bapur enwebu**

Dylid bod yn ofalus wrth dderbyn cwynion o'r fath, yn enwedig pan gânt eu cyflwyno gan gyd-ymgeisydd.

**Sicrhewch eich bod yn cael datganiad o dystiolaeth bob amser.**

Os oes un neu fwy o'r bobl a lofnododd y ffurflen enwebu wedi llofnodi ffurflen enwebu sydd eisoes wedi cael ei derbyn ar gyfer ymgeisydd arall, rhaid i'r swyddog canlyniadau wrthod y ffurflen enwebu ddiweddarach. Os bydd yr ymgeisydd diweddarach yn darganfod hyn yn agos at y terfyn amser ar gyfer derbyn enwebiadau, efallai y caiff ei demtio i gyflwyno ffurflen newydd dwyllodrus a lofnodwyd ganddo ar ran ei gefnogwyr.

Fodd bynnag, mewn etholiadau llywodraeth leol, gall etholwr fod yn gynigydd, yn eilydd neu'n gydsyniwr ar gyfer cynifer o enwebiadau â nifer y swyddi gwag yn ei ward.

Dylid hefyd nodi nad oes ond dyletswydd ar y swyddog canlyniadau sy'n cael y cais i gadarnhau bod y cydsynwyr wedi'u cofrestru fel etholwyr o fewn yr etholaeth ac nad ydynt wedi llofnodi papur enwebu neb arall ar gyfer yr etholiad hwnnw. Mae'n ofynnol iddo dderbyn gweddill y papur enwebu ar ei olwg.

Os ceir cwyn o fewn y cyfnod pan y gall ymgeisydd dynnu ei enwebiad yn ôl, dylai'r ymchwiliad fynd rhagddo cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau bod modd tynnu enw'r ymgeisydd yn ôl. Gallai hyn osgoi'r gofyniad i gyflwyno deiseb etholiadol yn ddiweddarach.

Os gwneir yr honiad ar ôl y dyddiad olaf pan y gall ymgeisydd dynnu ei enwebiad yn ôl, rhaid i'r etholiad fynd rhagddo gydag enw'r ymgeisydd sy'n destun anghydfod ar y papur pleidleisio.

Mae'n well cynnal yr ymchwiliad yn ystod y cyfnod ar ôl yr etholiad gan fod hyn yn lliniaru'r risg y caiff swyddogion yr heddlu eu cyhuddo o ddylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.

### **Ymchwilio i ddilysrwydd llofnod cydsyniwr**

Bydd ymweliad â'r cydsyniwr fel arfer yn egluro a yw'r llofnod yn ddilys ai peidio, ond mae angen i'r ymchwilydd hefyd fod yn ymwybodol o ffactorau allanol a all effeithio ar ddilysrwydd yr honiad. Mae'r rhain yn cynnwys:

Materion diwylliannol  
Cywilydd  
Camymddwyn gwleidyddol  
Dioddefwr twyll

Un o'r amddiffyniadau cyffredin a gyflwynir yn yr achosion hyn yw nad yr ymgeisydd a gasglodd y llofnodion a/neu fod y ffurflen wedi cael ei gadael mewn ardal gyhoeddus, gan ganiatáu i unigolion ei llofnodi heb oruchwyliaeth. Yn y ddau achos, gall yr ymgeisydd honni nad oedd yn gwybod bod y datganiadau'n ffug.

### **Ymchwilio i ddilysrwydd cyfeiriad yr ymgeisydd**

Mae honiad cyffredin yn ymwneud â'r prif gyfeiriad a nodwyd ar gyfer yr ymgeisydd. Mewn etholiadau llywodraeth leol, mae'n rhaid bod cysylltiad rhwng yr ymgeisydd a'r ardal y mae'n dymuno ei chynrychioli. Dylai breswyllo, gweithio neu feddiannu tir neu safle yn ardal yr awdurdod lleol. Er nad oes unrhyw ofyniad preswyllo ar gyfer etholiadau seneddol, gall hyn fod yn berthnasol o hyd oherwydd y fantais wleidyddol i ymgeisydd o gael ei weld fel rhan o'r gymuned.

Mae angen un o'r cysylltiadau lleol canlynol er mwyn sefyll etholiad llywodraeth leol:

- mae'r ymgeisydd ar y gofrestr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod pan gaiff ei enwebu (ac wedyn), neu

ar gyfer y 12 mis cyn cael ei enwebu (a hyd at y diwrnod pleidleisio):

- mae wedi meddiannu unrhyw dir neu safle arall yn yr ardal honno fel perchennog neu denant, neu
- bu ei brif fan gwaith neu ei unig fan gwaith yn yr ardal honno, neu
- mae wedi preswyllo yn yr ardal honno.

Gan fod angen preswyllo yn yr ardal er mwyn cofrestru fel etholwr llywodraeth leol, mae dau o'r pedwar opsiwn hyn yn ymwneud â phreswyllo. Nid yw preswyllo'n gysyniad clir ac mae angen cymryd gofal i gadarnhau'r ffeithiau llawn mewn unrhyw achos penodol. Er enghraifft, bydd llawer o ymgeiswyr yn preswyllo mewn mwy nag un lle a gallant gael gafael ar gyfeiriad yn ardal yr awdurdod lleol neu'r ward lle y maent am sefyll fel ymgeisydd. Mae'r gyfraith yn caniatáu hyn.

Gall ymgeiswyr godi cwestiynau ynghylch ail gartref fel cyfle i ddwyn anfri ar gyd-ymgeisydd.

**Bydd yn rhaid i unrhyw honiadau a wneir bod ymgeisydd wedi dweud celwydd am ei statws preswyllo ar ei bapur enwebu gael eu cefnogi gan ddatganiad o dystiolaeth sy'n profi'r honiad hwn.**

Fel arfer, y ffordd gyflymaf o ymchwilio i honiadau o'r fath yw drwy ymweld â'r cyfeiriad a ddarparwyd a chadarnhau a yw'r ymgeisydd yn preswyllo yn y cyfeiriad mewn gwirionedd. Fodd bynnag, wrth ystyried y dull gweithredu hwn, mae angen bod yn ofalus er mwyn osgoi cynnig unrhyw gyfleoedd i gyd-ymgeiswyr fanteisio ar hyn, megis presenoldeb y wasg. Wrth geisio penderfynu a yw rhywun yn preswyllo yn y cyfeiriad, dylid cadw golwg am arwyddion o'r hanfodion sy'n gysylltiedig â bywyd beunyddiol, megis dillad, dillad gwely, eiddo personol, eitemau drwy'r post, cyfrifon cyfleustodau a chyfrifon banc. Dylid hefyd ystyried pa mor aml y mae'r ymgeisydd ar y safle a dibenion ei bresenoldeb yno, ond ni fydd absenoldebau dros dro, hyd yn oed rhai hir, o reidrwydd yn golygu nad yw'r ymgeisydd yn preswyllo yno. Felly, gall fod angen gwneud ymholiadau tebyg ynghylch unrhyw gyfeiriadau eraill y gall yr ymgeisydd breswyllo ynddynt, yn ogystal â'r hyn sydd ar ei bapurau enwebu, er mwyn eu cymharu.

Efallai y bydd yn rhaid cael barn y CPS yn y lle cyntaf er mwyn penderfynu a yw'r hyn a ganfuwyd yn y lleoliad yn gyfystyr â phreswyllo. Gall gofynion gwahanol fod yn berthnasol i fathau eraill o etholiadau. Dylid ceisio cyngor cyn gynted â phosibl.

Yn ystod y cyfnod cyn y diwrnod pleidleisio, dylid ystyried y ffordd y mae'r heddlu'n cynnal ymholiadau o dŷ i dŷ gan y gall hyn arwain at gyhoeddusrwydd negyddol i'r ymgeisydd. Gallai hyn niweidio enw da yr heddlu, y gellir ei gyhuddo o geisio dylanwadu ar ganlyniad yr etholiad.

## Llwgwobrwyo

Mae unigolyn sy'n euog o lwgrwobrwyo yn euog o arfer lwgr o dan [adran 113](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

Mae unigolyn yn euog o lwgrwobrwyo os yw'n gwneud un o'r canlynol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ei ben ei hun neu drwy rywun arall sy'n gweithredu ar ei ran:

- rhoi unrhyw arian neu sicrhau unrhyw swydd ar gyfer unrhyw bleidleisiwr neu ar ei ran, neu ar gyfer unrhyw un arall ar ran unrhyw bleidleisiwr, neu ar gyfer unrhyw un arall neu ar ei ran, er mwyn cymell unrhyw bleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio
- gwneud unrhyw weithred lwgr o'r fath ag y disgrifir uchod oherwydd bod unrhyw bleidleisiwr wedi pleidleisio neu beidio â phleidleisio
- rhoi unrhyw rodd neu swydd fel y disgrifir uchod ar gyfer unrhyw un neu ar ei ran er mwyn cymell yr unigolyn hwnnw i sicrhau, neu geisio sicrhau, bod unrhyw un yn cael ei ethol mewn etholiad neu bleidlais unrhyw bleidleisiwr

- sicrhau neu geisio, addo neu ymdrechu i sicrhau, o ganlyniad i unrhyw rodd neu swydd fel y disgrifir uchod, bod unrhyw un yn cael ei ethol mewn etholiad neu bleidlais unrhyw bleidleisiwr.

## Tretio

Mae'n arfer lwgr o dan [adran 114\(2\)](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 i unrhyw un, naill ai cyn, yn ystod neu ar ôl etholiad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, roi neu ddarparu un o'r canlynol, neu dalu'n llwyr neu'n rhannol amdano, at ddiben dylanwadau'n llygredig ar bleidleisiwr:

- cig
- diod
- adloniant neu ddarpariaeth i unrhyw un.

Mae hefyd yn arfer lwgr o dan adran 114(3) i dderbyn neu gymryd unrhyw gig, diod, adloniant neu ddarpariaeth o'r fath yn llygredig.

## Ymchwilio i honiad o dretio

Pan wneir honiad o dretio, dyma'r pwyntiau cyntaf i'w hystyried:

- A gynigiwyd y lluniaeth, y rhodd neu wobwr arall gyda'r **bwriad o ddylanwadu'n llygredig ar** y pleidleisiwr i bleidleisio neu beidio â phleidleisio?
- A yw'r unigolyn sy'n cyflwyno'r honiad wedi derbyn unrhyw ran o'r hyn a gynigiwyd? Os felly, ac os oedd ganddo **fwriad llygredig** dros wneud hynny, mae wedi cyflawni'r drosedd hon hefyd.
- Pwy yw'r achwynydd a sut y mae'n ymwybodol o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r honiad o drosedd?
- A yw'r achwynydd ac unrhyw dyst wedi rhoi datganiad tyst?
- Beth oedd amgylchiadau'r cynnig i dretio?
- A oedd ffactorau diwylliannol ar waith?

Mae'r rhain sy'n derbyn yr hyn a gynigir hefyd yn cyflawni'r drosedd hon. Mae hyn yn golygu nad dim ond yr unigolyn yr honnir iddo wneud y cynnig fydd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu.

Pan fydd cyd-ymgeisydd neu weithiwr gwrthblaid yn gwneud cwyn, caiff yr agwedd hon ei diystyru'n aml ac nid yw'n sylweddoli nad dim ond yr unigolyn sy'n gwneud y cynnig fydd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu. Dylid rhybuddio'r achwynydd am y canlyniad negyddol posibl a allai ddeillio o gŵyn o'r fath.

Gall ffactorau diwylliannol effeithio ar y drosedd hon gan fod llawer o ddiwylliannau'n ystyried bod darparu lluniaeth yn gymdeithasol dderbyniol, ac y byddai'n cael ei gweld fel sarhad pe na bai lluniaeth yn cael ei ddarparu. Mae'n allweddol ceisio cyngor

arweinydd/arbenigwr cymdeithasol annibynnol ar y ffactorau diwylliannau, a dylai unrhyw gyngor o'r fath gael ei gofnodi fel tystiolaeth ar ffurf datganiad tyst.

## Dylanwad gormodol

Mae trosedd dylanwad gormodol o dan [adran 115](#) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn cyfeirio at ddigwyddiadau lle mae unigolyn yn arfer dylanwad gormodol neu'n cymell rhywun i bleidleisio neu beidio â phleidleisio mewn etholiad.

Mae unigolyn yn euog o arfer dylanwad gormodol os yw'n gwneud un o'r canlynol, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ei ben ei hun neu drwy rywun arall yn gweithredu ar ei ran:

- defnyddio neu fygwth defnyddio unrhyw rym, trais neu ataliaeth
- difrodi, niweidio neu achosi colled fydol neu ysbrydol, neu fygwth gwneud hynny, er mwyn cymell neu orfodi'r unigolyn hwnnw i bleidleisio neu beidio â phleidleisio, neu oherwydd bod yr unigolyn hwnnw wedi pleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Fel arall, mae unigolyn yn euog o arfer dylanwad gormodol os bydd yn herwgipio rhywun neu'n defnyddio unrhyw ddyfais dwyllodrus neu ystryw er mwyn gwneud y canlynol:

- rhwystro neu atal neu fwriadu atal neu rwystro etholwr neu ddirprwy etholwr rhag arfer ei hawl i bleidleisio yn ddirwysr
- gorfodi, cymell neu ddarbwylllo neu fwriadu gorfodi, cymell neu ddarbwylllo etholwr neu ddirprwy etholwr naill ai i bleidleisio neu beidio â phleidleisio.

Mae'r drosedd uchod yn gofyn am ddefnyddio digon o rym neu fygythiad corfforol i gael effaith niweidiol ar yr etholwr er mwyn dylanwadu ar ei benderfyniadau, neu ei atal mewn rhyw ffordd rhag pleidleisio.

## Ymchwilio i ddylanwad gormodol

Fel rhan o'r mesurau ataliol a roddir ar waith gan yr heddlu cyn yr etholiad, mae angen sefydlu cysylltiadau ar lefel uchel o fewn pleidiau a gydag asiantiaid ymgeiswyr annibynnol. Y nod yw atal cwynion yn erbyn gweithgareddau ymgyrchu cyd-ymgeiswyr rhag gwaethygu a thawelu sefyllfa os bydd yn gwaethygu. Gall SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol ar gael.

Mae'n bwysig bod unrhyw bobl sy'n honni trosedd dylanwad gormodol yn llwyr ymwybodol o faint o droseddoldeb sydd ei angen mewn perthynas â'r drosedd hon.

Rhaid i achwynydd ddarparu datganiad tyst sy'n dangos y dylanwad gormodol, ffurf y dylanwad hwn a'r effaith niweidiol ganlyniadol arno ef ei hun.

Mae'n hysbys bod cyd-ymgeiswyr yn gwneud cwynion am weithredoedd neu weithredoedd tybiedig eu gwrthwynebwyr. Yn aml, ni all yr ymddygiad sy'n cael ei ddisgrifio gael ei gadarnhau gan unrhyw berson y gellir ei adnabod sy'n ei dystio'n

uniongyrchol. Mewn llawer o achosion, ni fydd ymddygiad ymgeisydd, canfaswyr na gweithwyr plaid yn gyfystyr â throsedd dylanwad gormodol.

Os bydd yr ymddygiad yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf uchod, bydd nifer y cwynion yn bwysig. Os bydd un gŵyn, dylid ystyried cymhelliant gwleidyddol yr achwynydd.

## **Amseriad yr ymchwiliad**

### **Rhagor o wybodaeth**

[Cod ymddygiad i ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio](#)

Os yw'n ymddangos bod sylwedd i honiad o arfer dylanwad gormodol, dylid ystyried amseriad yr ymchwiliad yn ofalus. Gallai ymchwiliad cyn dyddiad yr etholiad gael effaith negyddol ar lwyddiant ymgeisydd. Rhaid rhoi sylw priodol i gyfraniad yr ymgeisydd at y dylanwad gormodol honedig.

Os nad yw'r ymgeisydd yn cyfrannu'n uniongyrchol ac y gellir atal yr ymddygiad rhag parhau drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r plaid, yr asiant neu'r ymgeisydd, yna yn dibynnu ar faterion cadw tystiolaeth, efallai y byddai'n well cynnal yr ymchwiliad ar ôl dyddiad yr etholiad.

Bydd hyn yn atal pobl rhag cyhuddo'r heddlu o ymyrryd â chanlyniad yr etholiad.

## **Treuliau etholiad a throseddau rhoddion**

Mater i'r heddlu yw ymchwilio i droseddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl sy'n ymwneud â gwariant ymgeisydd fel arfer. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi pennu pwerau i ymchwilio i droseddau gan bleidiau a mathau eraill o grwpiau ymgyrchu, a'u cosbi, yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), ond nid oes ganddo'r un pwerau mewn perthynas ag ymgeiswyr o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl (1983). **Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a fu trosedd o dan PPERA neu Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl, dylid cysylltu â'r Comisiwn Etholiadol am gyngor.**

## **Troseddau treuliau etholiad ymgeiswyr**

Fel arfer, mae ymgeiswyr yn penodi asiant etholiad, sy'n cymryd y rhan fwyaf o gyfrifoldeb am reoli treuliau'r ymgyrch. Gall ymgeisydd weithredu fel ei asiant etholiadol ei hun.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ac asiantiaid ddarparu cofnod o wariant ymgeisydd yn ystod ei ymgyrch i'r Swyddog Canlyniadau. Rhaid darparu'r cofnod o fewn terfyn amser penodol ar ôl i ganlyniad yr etholiad gael ei gyhoeddi. Rhaid iddo hefyd ddarparu dogfennaeth ategol ar gyfer y cofnod ar ffurf anfonebau a derbynebau ar gyfer taliadau. Rhaid i'r ffurflen hefyd gynnwys manylion pob rhodd a gafwyd a oedd yn werth dros £50.

Rhaid i'r cofnod gael ei ategu gan ddatganiad gan yr ymgeisydd, ac asiant yr ymgeisydd, fod y cofnod yn wir ac yn gywir. Mae methu â darparu'r cofnod, y naill ddatganiad neu'r llall, neu wneud datganiad ffug, i gyd yn droseddau, yn dibynnu ar ddarpariaethau cafeat amrywiol.

Mae ymgeiswyr hefyd yn ddarostyngedig i derfyn gwariant ar gyfer yr ymgyrch, ac mae gwario mwy na'r terfyn hwnnw hefyd yn drosedd. Pe bai ymgeisydd yn gwario mwy na'r terfyn ar gyfer ei dreuliau o ganlyniad i drosedd argraffnod honedig, dylid trin hyn yn yr un ffordd ag unrhyw achos arall o dorri'r terfyn gwariant.

Ceir troseddau o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl hefyd sy'n ymwneud â thrydydd partiön sy'n ymgyrchu dros **ymgeiswyr** penodol neu yn eu herbyn. Mae hyn yn wahanol i drydydd partiön sy'n ymgyrchu dros **bleidiau gwleidyddol** neu yn eu herbyn, sy'n cael eu rheoleiddio o dan PPERA gan y Comisiwn Etholiadol.

Sylwer er ei bod yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau ddarparu copïau o'r ffurflen treuliau etholiad a gyflwynir gan ymgeiswyr i'r Comisiwn Etholiadol, nid oes rhaid i'r Swyddog Canlyniadau ddarparu'r anfonebau na'r derbynebau. Felly, dylid cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau yn y lle cyntaf os bydd angen anfonebau a derbynebau ar gyfer unrhyw ymchwiliad gan yr heddlu.

### **Troseddau sy'n ymwneud â gwariant neu roddion etholiadol**

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r rheolaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â gwariant ymgeiswyr, asiantiaid a phleidiau gwleidyddol yn ystod ymgyrch etholiadol. Os ymddengys fod trosedd wedi'i chyflawni sy'n ymwneud â chofnodi rhoddion gan ymgeisydd neu blaid wleidyddol neu wariant etholiadol gan blaid wleidyddol, dylai pwynt cyswllt unigol yr heddlu ar gyfer etholiadau hysbysu Dan Adamson neu Richard Jordan yn y Comisiwn Etholiadol.

## **Trin tystiolaeth**

---

Gan amlaf, daw asiantaethau partner heblaw'r heddlu o feysydd yn y sector cyhoeddus lle nad yw cadw safle fel y mae nac ymwybyddiaeth fforensig yn rhan o'u gweithgareddau beunyddiol.

Dylid rhoi'r [canllawiau i awdurdodau lleol ar drin tystiolaeth](#) i unrhyw aelod o staff etholiad a all ddod i gysylltiad â deunydd etholiad.

Bydd angen i staff awdurdodau lleol wybod sut i drafod ceisiadau gan bleidleiswyr a phapurau pleidleisio â llaw, yn ogystal â sut i ddiogelu eitemau amheus a pharhad yr eitem cyn i'r heddlu gael gafael arni.

Dylai'r heddlu fod yn gweithio ar ganllawiau ar [reoli tystiolaeth](#).

### **Diogelu a chadw tystiolaeth**



## Rhagor o wybodaeth

### Ymchwilio i wybodaeth gofrestru ffug

Cyn cyflwyno unrhyw eitemau ar gyfer archwiliad fforensig, dylid cadarnhau bodolaeth yr etholwr. Dylid hefyd gadarnhau a gydsyniodd yr etholwr i'r cais a dylid cadarnhau dilysrwydd y llofnod ar y ffurflen.

Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn gosod gofyniad cyfreithiol ar swyddogion sy'n ymwneud â'r broses etholiadol ynghylch sut i storio dogfennau penodol a phwy all gael gafael arnynt. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â phapurau pleidleisio y bydd yn rhaid cael gorchymyn gan naill ai'r Llys Sirol neu'r Uchel Lys, yn dibynnu ar y math o etholiad, ar eu cyfer.

## Dylid cadw'r ddogfennaeth wreiddiol

Dylid cael cytundeb i ynysu ffurflenni amheus a'u trin â llaw cyn lleied â phosibl. Gellir defnyddio amlenni a phocedi plastig ar gyfer dogfennau at y diben hwn. Gan ei bod yn bosibl na fydd llawer o brofiad o faterion fforensig, dylai'r heddlu ystyried cyflenwi eitemau megis menig a sachau tystiolaeth, yn ôl yr angen.

Pan ddaw nifer o bapurau pleidleisio post amheus i law, mae'n bosibl iddynt gael eu hagar o dan amgylchiadau dan reolaeth. Mae hyn yn rhoi cyfle i atafaelu'r amlen a dogfennaeth arall ar adeg eu hagar ac i ddynodydd y cytunwyd arno ymlaen llaw gael ei roi ar waith, a all sicrhau bod modd adnabod y papur pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r amlen honno a'r ddogfennaeth gysylltiedig.

Dylid cadw unrhyw ddeunyddiau pecynnu, e.e. amlenni neu fagiau plastig, a'u rhoi mewn cynhwysydd diheintiedig lle y bo'n bosibl.

Dylai'r heddlu atafaelu ffurflenni/deunyddiau pecynnu cyn gynted â phosibl. Dylid cael datganiad yn dangos pob ffurflen/pecyn ar wahân ac yn croesgyfeirio cyfeiriadau'r dystiolaeth lle y bo angen o fewn y datganiad.

Wrth gynnal adolygiadau o'r deunydd a atafaelwyd, rhaid cydnabod, hyd yn oed pan fydd y prif bleidiau wedi cytuno ar brotocolau lleol a chenedlaethol i beidio â chwblhau'r math hwn o ddeunydd na'i drafod â llaw, **nad yw'n anghyfreithlon** iddynt wneud hynny. Ar yr amod bod yr unigolyn yn bodoli a'i fod wedi cytuno i'r ffurflen gael ei chwblhau a bod yr unigolyn wedi llofnodi'r ffurflen o'i wirfodd, nid oes unrhyw drosedd wedi cael ei chyflawni.

## Rheoli'r polisi

Cyfrifoldeb yr uwch-swyddog ymchwilio yw cadw cofnod o'r penderfyniadau yn ei gofnod polisi. Efallai na fydd rhai asiantaethau partner yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau neu benderfyniadau, felly mae'n bwysig cofnodi penderfyniadau a wneir mewn

cydweithrediad ag asiantaethau partner. Gall fod yn fuddiol rhannu penderfyniadau polisi ar achlysuron. Dylai'r CPS gael gwybod am fodolaeth cofnod polisi.

## Adnabod tystion

---

Dylid gwneud pob ymdrech i nodi'r rhai a ddrwgdybir a thystion cyn gynted â phosibl. Gall methiant i adnabod tystion yn gynnwys ac i gael yr holl dystiolaeth cyn gynted â phosibl niweidio unrhyw ymchwiliad. Gellir rhoi tystion o dan bwysau gormodol i beidio â chynorthwyo ymholiad gan yr heddlu, a gall eu dystiolaeth gael eu llygru gan farn a sylwadau pobl eraill. Dylid ceisio dystiolaeth ategol megis CCTV a thystiolaeth fforensig bob amser.

## Honiadau disylwedd gan drydydd parti

---

Gall ymgeiswyr ddefnyddio cefndir neu yrfa wleidyddol a chredoau ei gilydd er mwyn ennill mantais dros eu cyd-ymgeiswyr yn ystod ymgyrch wleidyddol. Gall hyn gynnwys cyflwyno sylwadau i'r heddlu, y cyfryngau a'r awdurdod lleol na ellir eu cadarnhau. Gall rhoi gwybod i'r heddlu am droseddau honedig fod yn dacteg fwriadol i hyrwyddo ymgyrch ymgeisydd drwy ddatgan bod yr heddlu'n ymchwilio i ymgeisydd neu blaid arall. Ar ôl i'r ymgeisydd wneud hyn a chael y canlyniad dymunol, efallai na fydd ganddo fawr o awydd mynd â'i honiadau ymhellach.

Mae'n ofynnol i unrhyw ymgeisydd neu aelod o'r cyhoedd sy'n gwneud honiad o gamymddwyn neu drosedd etholiadol ddarparu datganiad ysgrifenedig llawn (MG11). Rhaid i hwn gofnodi'r honiad yn llawn a darparu'r dystiolaeth sydd ganddo i'w gefnogi, neu fel arall ni fydd unrhyw ymchwiliad.

Os bydd unigolyn yn gwrthod darparu datganiad neu na all ddarparu unrhyw wybodaeth na thystiolaeth ategol, efallai yr ymdrinnir â'r wybodaeth a gafwyd fel cudd-wybodaeth. Rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn na ellir cymryd unrhyw gamau gweithredu os bydd yn gwneud datganiadau heb dystiolaeth i'w cefnogi. Os yw'n ymddangos bod yr atgyfeiriad yn faleisus, dylid rhybuddio'r achwynydd y gallai cyhuddiad arwain at ymchwilio iddo am wastraffu amser yr heddlu neu droseddau difrifol eraill. Ni fydd dystiolaeth ail law ar ei phen ei hun yn ddigon i ddechrau ymchwiliad.

Dylid mabwysiad dull gweithredu trylwyr wrth fynd i'r afael â honiadau di-sail. Bydd hyn yn osgoi gwastraffu adnoddau ar ymchwilio i honiadau na fyddant byth yn arwain at erlyniad.

Dylid cofnodi a dogfennu'r penderfyniad i beidio ag ymchwilio i honiad disylwedd.

## Strategaeth ymadael

---

Mae'n bwysig rheoli disgwyliadau achwynwyr a thystion yn briodol. Yn ystod ymgyrch wleidyddol, mae'n bosibl y bydd llawer o dyndra ac mae'n rhaid bodloni'r canllawiau canlynol:

- Dylai SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau nodi'r rhesymau (yn ysgrifenedig) dros beidio â pharhau ag ymchwiliad a chadw copi o hyn. Dylid rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y penderfyniad a wneir (gall fod angen strategaeth ar y cyd i'r wasg er mwyn rhannu unrhyw benderfyniad).
- Lle y bo'n berthnasol, dylid esbonio pam nad yw'r honiad yn drosedd, neu sut y caiff yr honiad ei reoli o bosibl, er enghraifft drwy gyflwyno llythyr cyngor ar gyfer trosedd argraffnod.
- Os gwneir honiad difrifol neu os bydd yr achwynydd yn dyfalbarhau, gall cyfarfod wyneb yn wyneb fod yn ddefnyddiol er mwyn esbonio'r rhesymau dros beidio â mynd ar drywydd yr achos. Gellir gwahodd deiliaid y swyddi canlynol i'r cyfarfod:
  - swyddog canlyniadau a/neu Reolwr Gwasanaethau Etholiadol
  - comander/uwch-swyddog ymchwilio
  - cynrychiolydd neu gadeirydd rhanbarthol plaid
  - arweinydd cymunedol os bydd yn briodol
  - un o ffrindiau'r achwynydd neu gynrychiolydd cyfreithiol neu gynrychiolydd plaid.

Dylid cofnodi'r cyfarfod a phryderon yr achwynydd. Ni fydd cyfreithiwr penodedig y CPS yn bresennol a dylid esbonio hyn wrth yr achwynydd cyn y cyfarfod.

Dylai'r cyfarfod nodi ymchwiliad yr heddlu ac amlinellu cryfderau a gwendidau'r achos. Dylid trafod crynodeb o'r broses ymchwilio, yn ddiennw fel y bo'n briodol.

Nid effeithir ar hawliau'r achwynydd i wneud cwyn swyddogol. Ni fydd y Comisiwn Etholiadol yn ymchwilio i unrhyw gwynion am ymchwiliad gan yr heddlu a dim ond i honiadau a wneir yn erbyn ei staff ei hun am faterion neu weithdrefnau mewnol y bydd yr awdurdod lleol yn ymchwilio.

Gall SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau, os yw'n briodol, roi gwybod i'r achwynydd am ei hawl i geisio cyngor cyfreithiol ynghylch rhwymedi sifil.

Rhaid cael nodyn dirwyn i ben gan y CPS. Ni ddylid cyflwyno'r adroddiad hwn i achwynydd na thrydydd parti ond gellir cyfeirio ato mewn unrhyw ohebiaeth ag achwynydd.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Tachwedd 2014 **Addaswyd ddiwethaf:** 21 Tachwedd 2017

[Symud i'r cynnwys](#)

- **Plismona etholiadau**
- [Egwyddorion a deddfwriaeth graidd](#)
- [Rolau a gwaith cynllunio allweddol](#)
- [Ymchwilio i achosion o gamymddwyn etholiadol](#)
- [Deunydd cyfeirio](#)

## Plismona etholiadau

### Deunydd cyfeirio

Deunydd cyfeirio ar gyfer arferion proffesiynol awdurdodedig ar blismona etholiadau:

- [Llythyr templed y Prif Weithredwr/Prif Gwnstabl er mwyn i ymgeiswyr, asiantiaid ac ymgyrchwyr gytuno i gydymffurfio â'r cod ymddygiad cenedlaethol](#)
- [Cod Moeseg y Coleg Plismona \(2014\)](#)
- [Deddf Cyfraith Trosedd 1977](#)
- [Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol \(2011\), Cod Ymarfer a Argymhellir ar gyfer Cyhoedduswydd gan Awdurdodau Lleol](#)
- [Y Comisiwn Etholiadol \(2015\), Y cod ymddygiad i ymgyrchwyr: pleidleisio drwy'r post, pleidleisio drwy ddirprwy a gorsafoedd pleidleisio](#)
- [Rheoliadau Etholiadau Senedd Ewrop 2004 \(dim hyperddolen\)](#)
- [Enghraifft o argraffnod a rheolau argraffnod cyffredinol](#)
- [Enghreifftiau o honiadau blaenorol a ystyriwyd o dan adran 106 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983](#)
- [Rhestr wirio SPOC yr heddlu ar gyfer etholiadau/awdurdodau lleol](#)
- [Deddf Ffugiadau a Drwgfathu 1981](#)
- [Deddf Hawliau Dynol 1998](#)
- [Canllaw ar y Cyd i Ymgeiswyr mewn Etholiadau \(2019\)](#)
- [Cysylltiadau allweddol](#)
- [Camau allweddol yn y broses etholiadol](#)
- [Canllawiau i awdurdodau lleol ar drin tystiolaeth](#)
- [Deddf Llywodraeth Leol 1986](#)
- [Cynnal trefn ac atal dylanwad gormodol y tu allan i orsafoedd pleidleisio](#)
- [Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu \(2016\), Canllawiau cyn Etholiad ar Rynghweithio ag Ymgeiswyr ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd – Ymddygiad yn ystod y Cyfnod cyn Etholiad](#)
- [Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu \(2019\), Canllawiau cyn Etholiad ar Rynghweithio ag Ymgeiswyr ac Ymddygiad yn ystod y Cyfnod cyn Etholiad](#)
- [Deddf Anudon 1911](#)
- [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000](#)
- [Deddf Trefn Gyhoeddus 1986](#)
- [Adrannau o Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 a all helpu i ymdrin ag anhrefn gyhoeddus sy'n gysylltiedig ag etholiadau](#)
- [R \(ar gais Woolas\) yn erbyn Llys Etholiad Seneddol \(2010\) EWHC 3169 \(Gweinyddu\) \(dim hyperddolen\)](#)
- [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983](#)
- [Atodlen o droseddau a chosbau sy'n gysylltiedig ag etholiadau a refferenda](#)
- [Templed o femorandwm cyd-ddealltwriaeth ar gyd-gynllunio etholiadau a'r broses o roi gwybod am achosion o gamymddwyn etholiadol ac ymchwilio iddynt](#)

## SWYDDOGOL

- [Templed o lythyr rhybudd ar gyfer troseddau argraffnod o dan Deddf Cynrychiolaeth y Bobl](#)
- [Deddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau a Gweinyddu Undebau Llafur 2014](#)
- [When it goes too far – Canllawiau ar y cyd](#)

Cyrchwyd y dudalen ddiwethaf ar 21 Tachwedd 2019

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 7 Tachwedd 2014 **Addaswyd ddiwethaf:** 21 Tachwedd 2019